



Tudalen 10

DOSBARTH MEITHRIN



Tudalen 6

BEDYDD



Tudalen 9

LLONGYFARCHIADAU



Tudalen 23

JACS Y GOGLEDD

ECO'r Wyddfa

Rhif: 393

Tachwedd 2011

Pris: 50c

O'r Castell i'r Llys

Cafwyd prynhawn cofiadwy iawn ar fferm Tros y Waen, Penisarwaen, ar ddydd Sadwrn, Hydref 8fed pan gafodd y llyfr uchod ei lansio. Hunangofiant William Hugh Griffith, Llys, Brynrefail, yw'r llyfr a'r cyhoeddwy yw Gwasg y Bwthyn, Caernarfon, ac mae'r llyfr yn y siopau a'i bris yw £7.95.

Darlun sydd yma o ŵr a lwyddodd ym myd y ceffylau gwedd ac a drodd ei fferm yn fusnes llewyrchus.

Fel bridwr, cystadleuydd a beirniad nid oedd ei debyg. Pan sylweddolodd nad oedd fferm Y Llys, Brynrefail, yn ddigonol i gadw teulu, trodd y safle yn fusnes mawr proffidiol a hynny cyn dyddiau'r arall gyfeirio o fewn y byd amaethyddol.

Mae'r llyfr yn adrodd stori am



Yn y llun mae'r ceffyl Trem y Wyddfa Courage gyda Rhys (ŵyr W.H. Griffith), ac o'r chwith i'r dde mae Idwal Symonds CBE, W.H. Griffith, Charles Arch a'r Canon Idris Thomas

un a ddefnyddiodd ei ddawn a'i weledigaeth ac a fentrodd mewn cyfnod pan nad oedd

hynny'n ffasiynol.

Daeth enw Llys Brynrefail, y brid Trem y Wyddfa a'i safle

carafannau i sylw cenedlaethol a thu hwnt.

Parhad Tudalen 4

Taith genod Llanber i Morbegno



Ary 1af o Awst 2011, aeth 14 o Geidwagedd Llanberis ar Daith Cyfnewid am wythnos i Forbegno, gefeilldref Llanberis yn yr Eidal.

Ar ôl taith hir o Milan i Forbegno, fe gyrhaeddodd bencadlys Sgowtiaid ein gefeilldref. Yno yn ein disgwyl roedd y Sgowtiaid, ei rhieni ac aelodau'r pwyllgor cyfnewid i roi croeso cynnes i ni. Fe gawsom bryd o fwyd a chyfarfod y cyfeillion a oedd yn ddigon parod i'n cymryd i'w tai am yr wythnos.

Parhad Tudalen 4

APÊL

Mae'n amser cyffrous i fod yn ymwneud ag Eco'r Wyddfa. Yn rhifyn Gorffennaf, am y tro cyntaf erioed, gwelwyd tudalennau mewn lliw llawn, ac yn rhifyn Hydref gwelwyd newidiadau pellach i edrychiad y papur. Ond, mae un peth yn aros. Does dim Golygydd!

Byddai Pwyllgor yr Eco yn hynod ddiolechgar petai rhywrai sydd â diddordeb mewn helpu i olygu'r Eco yn cysylltu â'r Cadeirydd os gwelwch yn dda. Ni ddylai'r dasg gymryd mwy na dwy awr y mis a byddai help ychwanegol yn sicrhau dyfodol yr Eco.



ECO'r Wyddfa

RHIF 393 TACHWEDD 2011

Argraffwyd gan
Wasg Dwyfor
Penygroes 01286 881911

Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn.

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Straeon ac erthyglau
ar e-bost i

alwenaowen@gmail.com
neu

Tir Iarll, Llandwrog LL54 5TE
neu:

ecorwyddfa@gmail.com

CADEIRYDD

Y PWYLLGOR GWAITH

Geraint Elis

GOLYGYDD CHWARAEON

Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

FFOTOGRAFFWR

Gwyndaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)
glasgoed@hotmail.com

TREFNYDD HYSBYSEBION

Eifion Roberts, Swŷ-y-Gwynt,
Llanberis (870740)
eifionroberts132@btinternet.com

TREFNYDD ARIANNOL

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST

Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD BWNDELU

Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir,
Dinorwig (870292)

GOHEBWYR PENTREFI

DEINIOLLEN: Nia Gruffudd (872133)

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248) 670726

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-
Williams, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn
Gwna (677438)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion
Roberts, Swŷ-y-Gwynt (870740)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn
Moelyn (675384)

NANT PERIS: Llinos Jones, 6 Nant
Ffynnon (871820)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans,
Sycharth (872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF

Deunydd i law'r golygyddion
perthnasol

NOS SUL, 20 TACHWEDD

Os gwelwch yn dda.

Dyddiad Gosod

NOS SUL, 24 TACHWEDD

Sefydliad Coffa Llanrug

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg

NOS IAU, 1 RHAGFYR

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO 2011

Rhifyn	Copi	Gosod	Plygu	Ble
Tachwedd	21 Hydref	28 Hydref	1 Tachwedd	LLANRUG
Rhagfyr	20 Tachwedd	24 Tachwedd	1 Rhagfyr	Caeathro
Nadolig/Ionawr	11 Rhagfyr	15 Rhagfyr	22 Rhagfyr	Ysgol Brynrefail
Chwefror	15 Ionawr	19 Ionawr	26 Ionawr	Waunfawr
Mawrth	19 Chwefror	23 Chwefror	1 Mawrth	Llanrug
Ebrill	18 Mawrth	22 Mawrth	29 Mawrth	Cwm y glo
Mai	15 Ebrill	19 Ebrill	26 Ebrill	Deiniolen
Mehefin	20 Mai	24 Mai	31 Mai	Brynrefail
Gorffennaf	17 Mehefin	21 Mehefin	29 Mehefin	Bethel

LLYTHYRAU

Meini Diddos

Prion

Dinbych

LL16 4SA

gwenfyljones@btinternet.com

Annwyl Ddarllenwyr

Fe wyddoch, mae'n siŵr, fod y Gymdeithas hon yn cynnig ysgoloriaeth o hyd at £300 i fyfyrwr Cymraeg sy'n dilyn cwrs tecstilau mewn coleg bob blwyddyn. Eleni yw'r pumed tro i'r Gymdeithas gynnig yr ysgoloriaeth hon. Enillwyd hi yn y pedair blynedd ddiwethaf gan fyfyrwyr dawnus, a phleser oedd arddangos eu gwaith ar stondin y Gymdeithas yn yr Eisteddfod Genedlaethol bob blwyddyn.

Amcanion y Gymdeithas yw hyrwyddo brodwaith drwy gyfrwng y Gymraeg, a threfnir cyrsiau, darlithoedd, dosbarthiadau ac arddangosfeydd mewn ardaloedd ledled Cymru. Diffinnir brodwaith fel unrhyw waith sydd yn addurno gan ddefnyddio edau a nodwydd, a cheir amrywiaeth o dechnegau ar gyfer hyn. Mae gennym arddangosfa o waith yr aelodau yn yr Eisteddfod Genedlaethol bob blwyddyn.

Rydym wedi canfod mai'r ffordd orau i'r Gymdeithas ddenu ymgeiswyr am yr ysgoloriaeth o bob rhan o Gymru yw trwy gael cyhoedduswydd yn y papurau bro. Diolchwn i chi am wneud hyn yn y gorffennol a gofynnwn ichi wneud yr un peth eleni eto - pwt o erthygl neu gopi o'r llythyr hwn, efallai. I gael ffurflen gair neu ragor o wybodaeth cysylltwch â fi ar y cyfeiriad uchod.

Gyda diolch

Yn gywir

Gwenfyl Jones

Cefnogwch ein
hysbysebwr

Frondeg, Gallt-y-Foel,

Deiniolen

Annwyl Olygydd

Tybed allen ni apelio at eich darllenwyr am gymorth?

Ar Drywydd Aur y Klondike

Wyddoch chi am aelodau o'r teulu aeth ar drywydd aur y Klondike 'nôl yn ystod yr 1890au? Mae'n debyg fod dros 1 miliwn o bobl o bedwar ban byd wedi rhuthro draw i ogledd-orllewin Canada - gyda nifer fawr iawn o'r rheiny'n Gymry. Beth bynnag fo'ch stori, hoffwn yn fawr iawn gael clywed gennych.

Hefyd, os oes gennych yn eich meddiant unrhyw luniau, llythyrau neu ddyddiaduron Cymraeg yn adrodd hanes perthynas neu gyfaill yn ystod y cyfnod hwn, hoffwn i chi gysylltu â mi os gwelwch yn dda.

Gallwch wneud hynny trwy ysgrifennu at y cyfeiriad uchod; trwy ffonio 01286 872462 neu trwy ebostio garmel@fsmail.net.

Gan edrych ymlaen at gael clywed gennych yn fuan

Yn gywir

Gareth Roberts

ERHODDION

£30: Er cof am T Roberts (Lôn bost), oddi wrth Eunice, Helen a Gwilym.

£20: gan deulu'r ddiweddar Olwen Jones, 'Garth', Ceunant; Teulu'r ddiweddar Margaret Rose, Erw Fair, Deiniolen; Ernest a Nan Owen, 8 Rhes Efrog, Llanberis.

£10: Gwen, Ann a theulu'r ddiweddar Dorothy Williams, Bro Dirion, Bethel; Bryn a Helen Jones, 9 Rhes Caradog, Deiniolen; Clifford ac Eleanor Williams, Afallon, Rhes Rhyddallt, Llanrug; Er cof am Carrie Hughes, 5 Ffordd Padarn, Llanberis; Eirwen Williams; Glenys Griffith, Llwyn Eithin, Bethel

£5: Kevin ac Anwen, Clwt y Bont, Deiniolen; Er cof am Carol Jones, 40 Ffordd Coed Marion, Caernarfon gan y teulu; Muriel Morris, 16, Maes Padarn, Llanberis; Teulu Mona Jones, 17 Dôl Eilian, Llanberis.

Glyn Morgan

Nant Peris

Annwyl Olygydd

Darllenais yr hanes am yr ymweliad â'r mynwentydd rhyfel ar y Cyfandir (y rhifyn diwethaf) gyda chryn ddiddordeb.

Rai blynyddoedd yn ôl, ffeindiodd fy merch, a ddigwyddai fod yn uchel swyddog yn y fyddin ar y pryd, yn union ble claddwyd ewythr imi. Yn Ypres. Aethom draw i weld y bedd, yr aelodau cyntaf o'r teulu i wneud hynny. Yn un o'r mynwentydd llai y gorwedd fy ewythr, sef William Norman Flynn o'r Royal Dublin Fusiliers, bachgen o dref Caernarfon.

Ar ein ffordd allan o'r fynwent tynnodd fy mab yng nghyfraith fy sylw at fedd cyfagos ac arno dusw o flodau ffres. Er mai Sais yw roedd o wedi sylweddoli bod 'na ryw faint o Gymraeg ar y garreg. Am syndod pan sylweddolais mai at fedd Hedd Wyn y cyfeiriai ac mai blodau a roddwyd arno wythnos ynghynt gan griw o'r Canolbarth oedd y blodau. Ie, bachgen o Gaernarfon a bachgen o Drawsffnydd yn gorwedd o fewn ychydig lathenni i'w gilydd. Yn nhref Ypres mae 'na eglwys Anglicanaidd ac wrth droed y fedyddfaen yn honno mae 'na beth dal blodau er cof am y bardd, ac yn rhoddedig gan gangen Trawsfynydd o Ferched y Wawr.

Hanes Gwilym Roberts yn China

Yn ystod mis Hydref aeth Gwilym Roberts, mab ieuengaf Mrs Eunice Roberts a'r diweddar Will Roberts o 15 Maes Padarn, Llanberis, i China i gerdded 120 milltir o wal China a reidio beic am 60 milltir ar hyd glannau'r afon Yangzee i godi ymwybyddiaeth am gancr, ac hefyd i godi arian tuag at elusen Marie Curie.

Drwy ei swydd ym Mhrifysgol Caerdydd mae Gwilym yn gyfrifol am ymchwil i agwedd pobl ifanc tuag at gancr ac mae'n gwneud gwaith gwirfoddol yn hospis Holme Towers ym Mhenarth.

Mae Gwilym yn hynod ddiolchgar i lawer o bobl Llanberis a'r ardal am eu haelioni ac fe godwyd £4,800 tuag at elusen Marie Curie. Hoffai ddiolch yn arbennig i aelodau côr merched Lleisiau Lliwedd am eu caredigrwydd a'u cefnogaeth.

Bydd Gwilym hefyd yn ymddangos ar raglen deledu ar 24 o Hydref. Mae'r rhaglen 'Bron yn Berffaith' yn dilyn stori bersonol yr actores Heulwen Haf, sydd yn gwella o gancr y fron.



Dr Gwilym Wyn Roberts

Cyfarwyddwr Ysgol Astudiaethau Iechyd. Prifysgol Caerdydd.
Tŷ Dewi Sant, Caerdydd CF14 4XN
(Ffôn: 02920 687795 / 97)

Lansio llyfr unigryw yn y Caban, Brynrefail

Mae sawl ohonoch yn gyfarwydd iawn â gwaith Gareth Roberts, y ffotograffydd a darlunydd o Gallt-y-Foel, Deiniolen. Gareth sydd wedi cyhoeddi cyfres o fapiau poblogaidd iawn dros y ddwy flynedd diwethaf o hanes plwyfi Llanddeiniolen, Llanrug a Llanengan, yn ogystal a map o hanes amgylchedd Llyn Padarn.

Ond hefyd, mae rhai ohonoch yn gyfarwydd â math arall o waith y bydd Gareth yn ei gynhyrchu, sef cyfres unigryw o ffotograffau o dirweddau Eryri ac arfordir Môn sydd wedi eu tynnu dan olau lleud yn y nos. Mae Gareth wedi arddangos rhai o'r lluniau hyn mewn galerïau drwy Gymru dros y blynyddoedd, yn cynnwys y Galeri Celf yn Eisteddfod Genedlaethol Yr Wyddgrug yn 2007. Nawr, am y tro cyntaf, mae casgliad o luniau nos Gareth yn cael eu cyhoeddi mewn llyfr o'r enw 'Y Sêr yn eu Tynerwch' gan Wasg Carreg Gwalch, a fydd ar gael yn y siopau o 15 Tachwedd.

Mae 'Y Sêr yn eu Tynerwch' yn gasgliad arbennig o luniau, i gyd gyda cherddi addas sydd wedi eu dewis gan Myrddin ap Dafydd. Cerddi yw y rhain sydd yn dathlu prydferthwch y tirwedd yn y nos.

Bydd y llyfr yn cael ei lansio yn Y Caban ar Nos Iau, 3 Tachwedd, am 6.30, ac mae croeso i bawb yno i wrando ar atgofion personol, digri a anturiaethau Gareth tra'n troedio Eryri ac arfordir Môn yn tynnu lluniau yng nghanol y nos tra bod rhan fwyaf ohonom yn glyd yn ein gwelyau. Mae'r mynediad am ddim i weld sioe sleidiau o

Y Sêr yn eu Tynerwch

CERDDI'R NOS A'R GOLEUNI



waith Gareth, a'i hanesion yn cwrdd a bywyd gwyllt y nos a gweld ambell beth od iawn (ar y tir yn ogystal ac yn yr awyr). 'Mae'n broses hir tynnu lluniau yn y nos,' meddai Gareth, 'a chewch ddod i weld sut y byddaf yn tynnu'r lluniau unigryw yma yn ogystal â chlywed am fy holl anturiaethau dros y blynyddoedd.'

Cymerwyd 8 mlynedd i dynnu'r holl luniau ar gyfer y llyfr, sydd yn cynnwys lluniau o'r Aurora Borealis o Eryri. Mae un llun mor gymhleth fe gymerodd 17 awr i'w gynhyrchu. Yn hyn o beth dim ond 33 llun roedd Gareth wedi'i gynhyrchu mewn 7 mlynedd a phan ofynnodd Myrddin ap Dafydd iddo am 50 ar gyfer y llyfr, sylweddolodd Gareth mai dim ond dau leud llawn oedd ganddo i gynhyrchu 17 arall.

'Ond roedd hyn yn beth dda achos fe wnaeth i mi arbrofi gyda llawer o dechnegau newydd o dynnu lluniau yn y nos ac mae'r canlyniadau wedi bod yn syrpreis i mi.'

Ar gyfer y llyfr, bu i Myrddin ap Dafydd ddewis cerdd ar gyfer pob llun gan feirdd o'r presennol yn ogystal â'r gorffennol. 'Mae'r dewisiadau Myrddin wedi bod yn wych,' meddai Gareth 'ac fe ddeallodd ystyr y lluniau yn syth bin. Mae Myrddin wedi creu dilyniant i'r lluniau ac mae'r llyfr yn darllen fel stori.'

Mae croeso mawr i bawb i'r Caban i'r noson lansiad.

ARVONIA

- Gwyliau Prydeinig a Chyfandirol.

- Rhaglen Triplau Dyddiol.

- Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.

- Cerbyd 7 ac 14 sedd ar gael ar gyfer teithwyr maes awyr ac ar gyfer logi preifat.

- Adran teithiau grwp – yr holl drefniadau wedi'u gwneud: archebiadau gwesty a llong, teithiau, archebiadau theatra digwyddiadau



Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Ffôn: 01286-675175 • Ffacs: 01286-671126

E-bost: info@arvonias.co.uk • Gwefan: www.arvonias.co.uk



Problem gyda'ch cyfrifiadur?

Am wasanaeth cyfeillgar i ddatrys a gwella eich cyfrifiadur cysylltwch â Gomer Roberts

Ffôn : 01286 870462

Symudol : 07962 712368

Cymorth a hyfforddiant amyneddgar i bob oedran er mwyn i chi fedru mwynhau defnyddio eich cyfrifiadur!



www.ffmpegia.com

FFRAMIA

Parc Padarn, Llanberis

(01286) 870922

www.ffmpegia.com

Gwasanaeth Fframio Llundain

Dewis eang o luniau yn yr Oriel ac ar y wefan

William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwy.

Parhad Taith genod Llanber i Morbegno

Ar y 1af o Awst 2011, aeth 14 o Geidwragedd Llanberis ar Daith Cyfnewid am wythnos i Forbegno, gefeilldref Llanberis yn yr Eidal.

Ar ôl taith hir o Milan i Forbegno, fe gyrhaeddodd bencadlys Sgowtiaid ein gefeilldref. Yno yn ein disgwyl roedd y Sgowtiaid, ei rhieni ac aelodau'r pwyllgor cyfnewid i roi croeso cynnes i ni. Fe gawsom bryd o fwyd a chyfarfod y cyfeillion a oedd yn ddigon parod i'n cymryd i'w tai am yr wythnos.

Ar yr ail ddiwrnod fe gawsom BBQ a chwarae gemau gyda'r Eidalwyr, a chael cyfle i

ddod i adnabod ein gilydd yn well. Dysgom lawer am y gwahaniaethau rhwng sut rydym ni yn cynnal ein cyfarfodydd, a sut maen nhw yn cynnal rhai nhw.

Un o uchafbwyntiau'r daith oedd ein hymweliad a gwersyll Val Gringa ar lethrau mynyddoedd yr alpau. Cymerodd y daith dros 5 awr gan grwydro llwybrau serth cyn cyrraedd a chyfarfod a chymdeithasu gyda mwy o sgowtiaid Morbegno a'r cylch. Dilynwyd hyn gydag ymweliad ac ochr trefol Morbegno sydd yn dyddio yn ôl i'r ddeuddegfed ganrif. Crwydrom ar hyd yr hen strydoedd cerrig gan

ymweld â sawl adeilad hynafol yr ardal. Teithiom hefyd i i Milan gan ymweld â llawer o siopau a chadeirlan fyd enwog y ddinas. Mae Milan yn wahanol iawn i unrhyw dref yng Nghymru gyda llawer o gerfluniau creadigol wedi ei gosod yng nghanol y ddinas. Fe ymwelom hefyd a Bellagio ar lan llyn Como a oedd yn dipyn gwahanol i Milan ac yn llawer mwy heddychlon, a heb lawer o bobl. Pan ymwelom â Bellagio fe gawsom nofio yn Llyn Como, sydd tua deng gwaith mwy na Llyn Padarn a Llyn Peris gyda'i gilydd. Mwyhaom daith bleserus ar un o gychod y llyn.

Treulïom ein diwrnod olaf gyda'n teuluoedd a oedd wedi gofalu am danon ni drwy gydol yr ymweliad. Daeth y diwrnod i ben gyda pharti a hufen la unigryw Eidalaidd am ddim gan y siop Hufen la leol.

Roedd ein taith i Forbegno yn brofiad anhygoel a bythgofiadwy a fydd yn aros yn ein cof am flynyddoedd i ddod. Diolchwn yn fawr iawn i'n harweinyddion ac i'n cyfeillion o Forbegno a phawb a gyfrannodd mewn unrhyw fodd i'n helpu a rhoi cyfle i ni fynd ar y daith.

Mared Parry

Parhad O'r Castell i'r Llys

Mae'r llyfr yn adrodd stori am un a ddefnyddiodd ei ddawn a'i weledigaeth ac a fentrodd mewn cyfnod pan nad oedd hynny'n ffasiynol.

Daeth enw Llys Brynrefail, y brid Trem y Wyddfa a'i safle carafannau i sylw cenedlaethol a thu hwnt.

Daeth tyrfa fawr i fferm Tros y Waen i lansio'r llyfr a chafwyd digwyddiad cartrefol a chynnes iawn ac ni effeithiodd y glaw ar naws hyfryd y cyfarfod.

Roedd pobl o bell ac agos yno a chafwyd mwynhad.

Yn arwain y cyfan roedd y Prifardd Geraint Lloyd Owen o Wasg y Bwthyn ac roedd wedi cyfansoddi penillion arbennig i'r achlysur. Yn diddanu roedd y grŵp offerynnol Deg Darn Arian o Seindorf Deiniolen a enillodd y wobr gyntaf yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni yng nghystadleuaeth y Grŵp Offerynnol Agored. Aelodau'r grŵp oedd Lewys, Alaw, Richard, Wyn, Llio, Dylan, Meurig, Osian. Irfon a Dafydd. Yn y degawd roedd tad a merch sef Irfon a Llio, tad a merch arall sef Meurig ac Alaw a thaid a'i wŷr Dafydd a Richard! Y siaradwyr yn y cyfarfod oedd Hedd Rhys o Swyddfa'r NFU, Caernarfon, a chydag ef roedd y cyn swyddog David Jones. Bu William Hugh Griffith yn aelod brwd o'r undeb am nifer o flynyddoedd ac yn gadeirydd ar Ranbarth Gwynedd. Yna cafwyd gair gan y cynghorydd Pat Larsen; soniodd am weledigaeth a llwyddiannau W.H. Griffith ac am y ffaith fod ei blant yn rhedeg busnesau yn yr ardal heddiw. Yn cynrychioli Cymdeithas Ceffylau Gwedd oedd Derek Williams o fferm Bryneilian, Dolwen ger Abergele. Fel W.H.

Griffith roedd y ceffylau gwedd yn rhan bwysig o fywyd Derek Williams ers ei blentyndod. Bu'n cystadlu droeon yn erbyn W.H. Griffith a mynegodd fod cymdeithas y ceffylau gwedd yn un arbennig. Teithiodd Idwal E Symonds C.B.E. o Cwm Pennant, Dinas Powys, Bro Morgannwg, i fod yn bresennol. Ar fferm Y Fachell, Llanddeiniolen y'i maged a chafodd fywyd llewyrchus, diwyd, amrywiol a diddorol yma yng Nghymru.

Yr anrhydedd fwyaf a ddaeth i ran W.H. Griffith oedd dwy flynedd ar hugain yn ôl i Gorffennaf eleni, 1989, pan enillodd Wobr Goffa Syr Bryner Jones yn Sioe Amaethyddol Cymru a hynny am 'ei gyfraniad enfawr i ddatblygiad a gwelliant y ceffyl gwedd.' Yr un a gyflwynodd y wobr iddo oedd neb llai nag Idwal Symonds a oedd yn Llywydd y Sioe Frenhinol yn 1989.

Soniodd Idwal Symonds yn y cyfarfod lansio am gyfraniad W.H. Griffith i sicrhau dyfodol i'r ceffyl gwedd.

Y siaradwr olaf oedd Charles Arch. Pontrhydfendigaid, ac fe'i cyflwynwyd gan y Canon Idris Thomas. Adwaenir ef fel prif leisydd y Cylch Mawr ar uchelseinydd y Sioe Amaethyddol yn Llanellwedd a hynny ers blynnyddoedd. Roedd fferm teulu Charles Arch yng nghysgod yr Abaty enwog yn Ystrad Fflur a theitl un o'i lyfrau yw Byw o dan y Bwa a gyhoeddwyd gan Wasg Gwynedd rhyw 6 mlynedd yn ôl. Mae cyfraniad Charles Arch i fywyd amaethyddol Cymru yn un gwerthfawr ac ef a gyflwynodd y copi cyntaf o O'r Castell i'r Llys i W.H. Griffith. Ar ôl y cyfarfod mwynhawyd lluniaeth ardderchog a chyfle i bawb sgwrsio a phrynu'r llyfr. Diolchir i Meinir a Dylan a'r teulu am yr holl baratodau.

Pedwar

Mae criw o gantorion o Opera Cenedlaethol Cymru wedi dod ynghyd i ffurfio Pedwar, sef Huw Llywelyn (tenor) o Fethel, Meriel Andrew (soprano) o Aberaeron, Siân Meinir (mezzo) o Ddolgellau a Martin Lloyd (bas) o Abertawe. Roeddynt igyd yn wynebau cyfarwydd ar lwyfan yr Eisteddfod Genedlaethol cyn troi'n gantorion proffesiynol.

Cynhelir cyngerdd cyntaf Pedwar yng Nghapel Ebeneser, Dyfnant, Abertawe, nos Sul 23 Hydref. Y noson honno byddant yn rhannu'r llwyfan gyda Chôr

Meibion Dyfnant. Yn dilyn hynny, byddant yn perfformio nos Sul 6 Tachwedd yng Nghapel Seilo, Llandudno. Annette Bryn Parri fydd yn cyfeilio iddynt yn y ddau gyngerdd.

Cantorion opera amser llawn yw'r pedwarawd, ond yn ogystal â chanu ffefrynnau o fyd opera bydd eu cyngherddau yn cynnwys arias adnabyddus o weithiau oratorio, emynau a chaneuon Negroaidd.

Gellir cael mwy o wybodaeth drwy ffonio 07780869907.



BOSCH Service
Car Service

www.a-v-w.co.uk
01286 673559

CIBYN IND EST. CAERNARFON LL55 2BD
SAFON UCHEL Y GALLWCH EI DRYSTIO
ARBENIGWYR AR GEIR SWEDEN A'R ALMAEN
CEIR, CAMPERS A FANIAU

AVW **BOSCH Car Service**

DIOLCH. Hoffai Glenys, Llwyn Eithin, ddiolch yn ddiffuant iawn am y caredigrwydd a estynnwyd iddi gan ei chyfeillion a'i chydabod tra yn yr ysbyty yn ddiweddar, ac ar ôl dŵad adref. Diolch i bawb am bob peth.

P W Y L L G O R EISTEDDFOD BETHEL.

Eisteddfod Bethel, Tachwedd 12fed 2011. Os oes unrhyw un yn dymuno rhoi rhoddion (ariannol) tuag at yr Eisteddfod, gwnewch hynny trwy law Mrs Edwina Morris, Treflys - diolch yn fawr. Gofynnir yn garedig hefyd i enillwyr tlysau / cwpanau Eisteddfod 2010 eu dychwelyd i Lowri Haf Evans, 3 Tan y Cae o leiaf wythnos cyn yr Eisteddfod. Bydd y noson ddawns yn cael ei chynnal nos Fawrth yr 8fed o Dachwedd - enwau i Siân Harris erbyn nos Wener, Hydref 28ain, os am gystadlu fel unigolyn neu mewn grŵp. Cyfansoddiadau llên uwchradd a'r ddwy gystadleuaeth agored i fod yn llaw yr ysgrifenyddes dan ffug enw cyn 5:00 o'r gloch, Tachwedd 2il, ynghyd ag enw a chyfeiriad yr ymgeisydd mewn amlen wedi ei seilio.

Os am gystadlu yn y cystadlaethau gwaith celf, beth am fynd amdani dros yr hanner tymor! Thema eleni yw 'Symud, Cyffro neu Dathlu' - bydd angen i'r gwaith celf gyrraedd y neuadd rhwng 6 a 7pm nos Ferchery 9fed o Dachwedd. Mae testunau'r Eisteddfod ar gael yn y Swyddfa Bost.

Diolch i holl swyddogion Pwyllgor yr Eisteddfod am eu gwaith caled ac i drigolion y pentref am eu cefnogaeth barod bob amser. Edrychwn ymlaen at Eisteddfod lwyddiannus.

DIOLCH. Dymuna Gwen, Ann a'r teulu ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli mam a nain arbennig iawn, sef Dorothy Williams, Bro Dirion. Diolch hefyd am y rhoddion hael tuag at Apêl Ambiwlans Awyr Cymru.

LLONGYFARCHIADAU a phob dymuniad da i Daniel a Megan Humphreys, Is-Helen, Tregof ar ddathlu eu Priodas Aur ar 21 Hydref.

OEDFAON Y CYSEGR. Cynhelir yr oedfaon dilynol ym mis Tachwedd:

- 6 Parch Reuben Roberts
- 13: Y Gweinidog
- 20: Mr John Roberts
- 27: Y Gweinidog

CLWB BRO BETHEL. Croesawyd pawb i gyfarfod mis Hydref gan y Llywydd, y Parchedig Marcus Wyn Robinson. Diolchodd i'r rhai a fu wrthi yn casglu o ddrws i ddrws yn ddiweddar er budd Age Concern Gwynedd a Môn a braf oedd cael ar ddeall fod hanner y swm a gasglwyd, sef £88.00 wedi dod yn ôl i'r Clwb. Rhannwyd gwybodaeth am Gymorthfeydd derbyn cyngor cyfreithiol yn Adeilad Age Concern, cyfarfod blyneddol Age Concern yng Nghlwb Pêl-droed Caernarfon a Fforwm i'r henoed yng Ngwesty Meifod. Mae trefniadau ar y gweill ar gyfer y cinio Nadolig sydd i'w gynnal eleni yn y Gors Bach, Llanddeiniolen, pris i'r aelodau ydi £10.00. Er hwylustod, gofynnir i bawb lenwi ffurflen dewisiadau a'i ddychwelyd, gyda'r taliad, i Ann Ellis Williams neu Ivy Wright erbyn Tachwedd 1af.

Pleser o'r mwyaf oedd cael croesawu y siaradwr, sef Edward Morus Jones, a chawsom orig ddifyr yn ei gwmni wrth wrando arno yn olrhain hanes ei fagwraeth yn Llanuwchllyn, yna cyfnod yn y Coleg Normal, Bangor, cyn iddo fynd i lawr i'r de i ddysgu mewn nifer o ysgolion. Cyflwynodd storiâu difyr a dwys am bersonau a phlant roedd wedi eu hadnabod dros nifer o flynyddoedd. Diolchwyd yn gynnes iawn iddo am rannu ei atgofion gyda phawb gan Geraint Elis, a diolchwyd hefyd i ferched y te, Ann Ellis Williams ac Ivy Wright am y baned. Geraint Elis fydd yn annerch y tro nesaf a hynny ar brynghawn Mawrth, Tachwedd 1af yn Festri Bethel.

MERCHED Y WAWR

Dechreuwyd y noson drwy ganu Cân y Mudiad a chroesawyd pawb yn gynnes gan y Llywydd.

Croesawyd Glenys yn ôl ac roeddem yn falch iawn o'i gweld wedi gwella. Darllenwyd llythyr ar ei rhan yn diolch i bawb am eu caredigrwydd. Dymunwyd yn dda i Sheila ar ddathlu pen-blwydd arbennig a llongyfarchwyd Edwina a Gwynfor ar ddathlu Priodas Ruddem. Dymunwyd yn dda hefyd i Manon, Bronwen a Gethin, tri o bobl ifanc y pentref sydd yn ddisgyblion yn Ysgol Brynrefail ac yn cychwyn ar eu taith i Batagonia.

Atgoffwyd pawb am ddwy gystadleuaeth llên sydd yn

agored i bawb o'r pentref yn Eisteddfod Bethel ar Dachwedd 12fed.

Cafwyd gwybodaeth am yr Ysgol Undydd i Ddysgwyr a'r Cwis Cenedlaethol sydd ymlaen yn ystod y mis nesaf a thaith dau ddiwrnod Merched y Wawr a Chlybiau Gwawr i'r Ardd Fotaneg ar Ebrill 27 a 28, 2012.

Bydd Cinio Nadolig y gangen ar nos Fercher, 14 Rhagfyr yn Gardd Fôn, Y Felinheli. Ar gyfer hwyluso'r trefniadau gofynnwyd yn garedig i bawb ddod â'r ffurflen gyda'r dewis o fwyd, ynghyd â'r arian i gyfarfod y gangen mis nesaf. Diolchwyd i Eirlys Sharpe a Lis Evans sydd wedi cyflawni gwaith diddorol iawn yn cofnodi enwau caeau yn

yr ardal ar gyfer y Prosiect Casglu Enwau.

Ein gwraig wadd am y noson oedd Mrs Theta Owen o Fynydd Llandygai a ddaeth i arddangos ei dawn arbennig o osod blodau. Fe welwyd dau drefniant yn cael eu gosod yn grefftus iawn a'r cyfan ar y diwedd yn edrych yn hynod hardd. Cawsom noson hamddenol braf a phawb wedi mwynhau.

Diolchwyd i Mrs Owen gan Lis Watkins. Yng ngofal y baned oedd Nora ac Eirlys ac enillwyr y raffl oedd Rhian ac Alice.

Bydd y cyfarfod nesaf at 9 Tachwedd pryd y disgwylir Llinos Roberts o Lanelwy i'n paratoi ar gyfer y Nadolig gyda 'Chrefftau Nadolig'.

CEIR CYMRU

BETHEL (0148) 670 451

(Hefyd yng Ngherrig-y-Drudion)

A ydych yn ystyried newid eich car o fewn y flwyddyn nesaf? Ystyriwch y ffeithiau hyn.

1. Mae tri-chwarter y ceir newydd a gaiff eu gwerthu ym Mhrydain yn colli rhwng 25% i 30% o'u gwerth erbyn eu bod yn naw mis oed
2. Mae cwmnïau mawr a chwmnïau lesio a llogi yn derbyn oddeutu 25% o ddiscount wrth brynu eu ceir ac felly mae'r cerbydau hyn yn dod ar y farchnad am brisiau isel ac fel arfer mewn cyflwr rhagorol wedi cael eu cynnal a'u cadw heb ystyried costau
3. Mae gennym brofiad o 40 mlynedd yn prynu a gwerthu ceir ail-law ac rydym ar gyfartaledd yn trafaiio mil o filltiroedd bob wythnos yn chwilio am y bargeinion gorau er mwyn eu cynnig i bobl Gwynedd ar elw sydd fel arfer o qwmpas 5% o'r pris

Am gymorth:

- i gychwyn prosiect
- i gael hyfforddiant
- i geisio am grant
- i redeg mudiad
- i wirfoddoli



cysylltwch â Mantell Gwynedd

- yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol

ymholiadau@mantellgwynedd.com www.mantellgwynedd.com

01286 672626 neu 01341 422575

Elusen Gofrestredig 1068851 • Cofrestrwyd yng Nghymru • Cwmni Cyfnewid drwy Warant 3420271

Cofiwch ddefnyddio

SWYDDFA POST BETHEL

(01248) 670261

Cewch groeso cynnes gan CLED A SUSAN

Cofiwch am ein gwasanaeth newid pres tramor, yswiriant, talu biliau, etc., yn ogystal â gwasanaethau arferol Swyddfa'r Post.

A hefyd Paypoint, Loteri a Pheiriant • Tynnu Pres (Cashback)

ORIAU AGOR

6 a.m. - 7.30 p.m.

(Llun - Sadwrn)

6 a.m. - 3 p.m. (Sul)

BEDYDDIADAU. Yn Eglwys hynafol Sant Peris, Nant Peris, yn ddiweddar bedyddiwyd Siôn Dafydd a Megan Dafydd, mab a merch fach David a Lynne Elias, Ffrwd Goch. Gwasanaethwyd gan y Parch Lloyd Jones, y Felinheli, Deon Bro Arfon a'r organydd oedd Gareth Jones Llanberis. Y rhieni bedydd oedd Jonathan Roberts, Louise Roberts, Christopher Elias ac Awen Bailey. Cyfranogodd y gynulleidfa o Sacrament Swper yr Arglwydd ar derfyn y gwasanaeth.



Yng Nghapel y Rhos Llanrug ar Fedi'r 25ain, bedyddiwyd Erin Angharad, merch fach Amy Lambert, Glandŵr, wyres Bethan Lambert a gor-wyres Jennie Angharad Roberts, Ffrwd Madog. Gwasanaethwyd gan y Parch Marcus Wyn Robinson.

Cynnyrch a gwasanaethau priodol ar gyfer y rhai dros 50 oed

- Yswiriant Cartref
- Yswiriant Car
- Yswiriant Teithio
- Nwy a Thrydan
- Larymau Personol
- Cynlluniau Angladdau



Am bris heb rwymedigaeth, ewch i:

Age Concern Gwynedd a Mon
Ty Seiont, Ffordd Santes Helen
Caernarfon LL55 2YD
Ffôn: **01286 678310**
(ar agor 9am-5pm Mon to Fri)

Neu ffoniwch **0800 085 3741** neu ewch i
www.ageuk.org.uk/products

AGE
Concern

Age UK

Darperir yswiriant cartref, car a theithio gan Yswiriant Ageas Cyfyngedig.
Darperir Nwy a Thrydan gan E.ON Energy Solutions Cyfyngedig.
Age UK yw nod masnach Age UK (Elusen rhif 1128267). Defnyddir enw a logo Age UK o dan
gytundeb trwydded rhwng Age UK ac Age UK Enterprises Limited, sef eu cangen gwasanaethau
masnachol. Rhoddir yr elw net i Age UK. Age UK Enterprises Limited, Linhay House, Ashburton,
Devon TQ13 7UP. ID9975 11/10 MP2430V2APR11 SL031616_11_1

YREGLWYS BRESBYTERAIDD Y GYMDEITHAS.

Bu cyfarfod olaf y Gymdeithas am y tymor 2011 brynhawn Mawrth, Hydref 18fed. Aeth yr aelodau ar ymweliad ag Oriel Môn, Llangefni - yr Oriel yn dathlu ei phen-blwydd yn ugain oed ar Hydref 25ain. Treuliwyd orig hamddenol yn mwynhau nifer o arddangosfeydd, yn arbennig yr arddangosfa Gymreig-Wyddelig Le Chéile, gweithiau Charles Tunncliffe a Kyffin Williams. I gloi'r prynhawn, daeth pawb at ei gilydd i fwynhau lluniaeth yn y Bwyty. Roedd yr ymweliad yn ddiwedd teilwng i weithgareddau'r tymor a mawr yw ein diolch i Dafydd G. Ellis, yr ysgrifennydd, am drefniadau yr oll o'r cyfarfodydd.

O E D F A DDIOLCHGARWCH.

Cynhaliwyd gwasanaeth arbennig o ddiolch nos Sul, Hydref 16eg. Cafwyd oedfa fendithiol dan arweiniad y Parch Ddr. Dafydd Wyn Wiliam, Bodedern.

SEFYDLIAD Y MERCHED.

Dros y misoedd diwethaf bu aelodau'r gangen leol yn brysur gyda gweithgareddau amrywiol, yn cynnwys Sioe Frenhinol Llanelwedd pan aeth nifer o'r aelodau i gynorthwyo'r llywydd, Pat Jones, i gynllunio stondin y Sefydliad ar ran Gwynedd/Caernarfon a oedd yn llwyddiant mawr. Bu Helfa Drysor ym Mharc Glynllifon a gweithio caled hefyd ar gyfer Ffair Haf Gerddi Seiont. Mwynhawyd ymweliad â Gwinllan Badrig yng Nghemaes, Ynys Môn, gyda phryd o fwyd ym Mhentraeth i gloi'r noson.

Llongyferchir Carol a Nicola ar ennill cystadleuaeth badminton ar ddiwrnod Chwaraeon Rhyngffederasiwn Cymru a gynhaliwyd yn y Drenwydd.

Yng nghyfarfod mis Medi treuliwyd noson ddifyr yng nghwmni Len Porter, Penisarwaun, yn arddangos ei ddawn arbennig o greu ffyn.

OEDFAON TACHWEDD am 5.30 yr hwyr

- 6 Parch Dafydd Lloyd Hughes, Caernarfon
- 13 Parch Marcus Wyn Robinson, Bethel
- 20 Mr Robert M. Morris, Penygroes
- 27 Parch Ddr Elwyn Richards, Caernarfon

DINORWIG

Marian Jones.

Ffôn: (01286) 870291



DIOLCH. Dymuna teulu'r diweddar Ifor Phillips, 12 Maes Eilian, ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth fawr o golli Ifor mor sydyn. Diolch am alwadau ffôn, ymweliadau a chardiau ac hefyd am y rhoddion hael. Diolchiadau hefyd i'r Parch Idris Thomas a Dr William Munro wrth yr organ. Diolch yn fawr i'r ardal hefyd.

ADREF O'R YSBYTY. Yn ystod y mis cymerwyd Mrs Yvonne Brenan, Afallon, i Ysbyty Gwynedd yn dra sydyn, ond da deall erbyn hyn ei bod adref a bod Rosalyn, y ferch, wedi dod i edrych ar ei hól. Erbyn hyn braf yw deall ei bod yn cryfhau ac yn gwella o ddydd i ddydd ar ôl ei thriniaeth. Brysiwch wella, Mrs Brenan.

BYSUS RHIWLAS

Bysus bach a mawr ar gael ar gyfer pob math o logi preifat - nosweithiau allan, partion, tripiâu ac ati. Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan



(01248) 361044

D. P. OWENS RHIWLAS

Cefnogwch ein hysbysebwyd

MARWOLAETH Ar 26 Medi 2011 bu farw Howell Glyn Evans, Llwyn Alice, sef 'Glyn Garej', yn 87 oed. Brodor o Garo, Maldwyn, ar ôl cyfnod gyda loris bu'n enwog fel perchennog Gwesty Dolbrawdmaeth, Dinas Mawddwy, cyn iddo brynu Garej Gwalia yng Nghaeathro. Cydymdeimlwn gyda'i weddw, Josephine, ei phlant, John a Howell, a gweddill y teulu yn eu colled.

CYDYMDEIMLWN â Robert Owen, 1 Erw Wen, ar ôl iddo golli ei chwaer, Enid, ddiwedd mis Medi, a fu'n byw yng Nghyffordd Llandudno.

Cydymdeimlwn hefyd â Gwenllian Daniel, Y Bwythyn, ar ôl marwolaeth ei chwaer, Anna, ar 25 Medi ym Mhorthaethwy.

OED YR ADDEWID. Llongyfarchiadau i Alwyn Jones, Y Dderwen, ar ôl iddo gyrraedd oed yr addewid.

TRIGOLION NEWYDD.

Mae'n bleser gweld teulu ifanc newydd o amgylch y pentref - sef Huw Eurig ac Alice Beryl Hughes ac Osian sy'n cartrefu yng Nghastellmai.

TYNFA FISOL. Enillwyr Tynfa Fisol y Gymdeithas Cae Chwarae ym mis Hydref oedd:

1af - £40, rhif 71, Clive James, Hafan; 2il - £25, rhif 97, Dewi Jones, 13 Erw Wen; 3edd - £15, rhif 11 Tracey Jones, Islwyn; 4edd - £5, rhif 94, Reg Chambers Jones, Hafod Wen.

AELOD NEWYDD O GAPEL CAEATHRO.

Llongyfarchiadau i Clive James, Hafan, ar ôl iddo dderbyn pleidlais unfrydol yn cymeradwyo ei gais i drosglwyddo ei aelodaeth o Eglwys Gristnogol i Eglwys Bresbyteraidd Cymru - ac yn benodol Capel Caeathro.

CYMDEITHAS CAE CHWARAE CAEATHRO.

Cynhaliwyd y Cyfarfod Blynnyddol nos Lun, 17 Hydref, am 9 y h. yn Nhafarn Bryngwna. Etholwyd y swyddogion canlynol ar gyfer y flwyddyn nesaf: Cadeirydd: Clive James; Trysorydd: Richard Jones; Ysgrifennydd: Dewi Jones.

Hefyd ar y Pwyllgor fydd: Eryl Jones, Huw Ceiriog, Norman Hughes, Wyn Jones, Alun Roberts, Hefin Hughes, Matthew Rhys.

Derbyniodd y Cyfarfod gynnig Ceri Ann i gadw rhestr o blant a phobl ifanc yr ardal leol er mwyn sicrhau y bydd pob un ohonynt yn derbyn gwahoddiadau at ddigwyddiadau sy'n cael eu trefnu ar eu cyfer.

Mae copi o'r Fantolen ar gyfer 2010/11 i'w gweld ar hysbysfwrdd y Pentref.

NEWYDDION HEB EU CYNNWYS? O dro i dro mae rhywun yn gofyn paham nad oedd sôn am ddigwyddiad - pen-blwydd o bwys, priodas, llwyddiant, digwyddiad lleol, a y y b, yng ngholofn Caeathro yn Eco'r Wyddfa. Mae'r ateb yn syml - oni bai fod eich gohebydd lleol naill ai yn clywed am newyddion neu'n derbyn gwybodaeth i'w cynnwys mae'n amhosibl eu cynnwys! Y ffordd orau i basio newyddion ymlaen yw eu sgwennu ar ddarn o bapur a'i bostio drwy ddrws ffyrnt 'Hafan' - drws nesaf ond un i Dafarn Bryn Gwna i gyfeiriad Y Waunfawr.

CWIS I'R TEULU. Am 7:00 yh., nos Iau, 24 Tachwedd, bydd Cwis i'r Teulu i gyd yng Nghanolfan y Capel. Mae Pwyllgor Apêl Lleol Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Glynllifon, 2012 wedi trefnu'r noson. Bydd mynediad yn £1 y pen, gyda rafflau a phaned / diod ar y diwedd. Y cwis feistri fydd Carey a Richard Jones, Tryfan, gynt. Croeso mawr i bawb!

OEDFAON CAPEL CAEATHRO.

Disgwylir cynnal yr Ysgol Sul ac Oedfaon fel a ganlyn yn ystod mis Tachwedd:

- 6: 11:00 Ysgol Sul,
- 2:00 Oedfa o dan arweiniad ein Gweinidog, Y Parch. Marcus Wyn Robinson.
- 13: 11:00 Ysgol Sul
- 20: 11:00 Ysgol Sul,
- 2:00 Oedfa gyda'r Parch. Harri Parri.
- 27: 11:00 Ysgol Sul.

Dylan Griffith

Trefnwr Angladdau Annibynnol a Lleol

TROS-Y-WAEN PENISARWAUN

Gwaith Cerrig Beddi
Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
24 Awr y Dydd
Capel Gorffwys Preifat
Yn Gwasanaethu'r Holl Ardal

Ffoniwch DYLAN ar 01286 871833 (SYMUDOL- 07778127394)

Hefyd



CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA
Cyrhaeddwch Mewn Steil Mewn Cerbyd *Rolls Royce*
AR GYFER PRIODASAU, PENBLWYDD ac ACHLYSURON ARBENNIG ERAILL

Gwesty Dolbadarn

LLANBERIS Ffôn: 870277



Caffi Caban

ar Agor

9 y bore tan 4 y pnaen - 7 diwrnod yr wythnos

Cwmni cydweithredol di-elw yw Caban Cyf. wedi ei sefydlu i hwyluso datblygiad economaidd cefn gwlad.

Nod Caban Cyf. yw rheoli gweithrediad cynaliadwy sydd yn cynhyrchu incwm drwy ei brif weithgareddau refeniw (Caffi Trwyddedig, Ystafell Cynhadledd a Gwasanaeth Argraffu a Llungopio) ac ar yr un pryd i gefnogi busnes lleol (Unedau Busnes Caban) er mwyn creu cyfleoedd gwaith.

Caban, Yr Hen Ysgol, Brynrefail

www.caban-cyf.org caban@caban-cyf.org
01286 685 500 (caffi) 01286 685 462 (swyddfa)

Caban
cyf

Croeso: Llongyfarchiadau Mr a Mrs Jackson a chroeso cynnes i Meilyr Rhys, eu mab bach newydd, brawd a ffrind i Cai.

Croeso hefyd i'r wynebaw newydd sy'n hyfforddi yn yr ysgol. Mae Laura a Siân yn treulio cyfnodau rheolaidd yma tra'n mynychu Coleg Menai, a Rhodri Scott yn fyfyrwr o'r Brifysgol fydd yn nosbarth Llydaw tan y Nadolig.

Croeso cynnes iawn i blant bach y dosbarth Meithrin. Mae Efa, Jamie a Leah wedi setlo'n arbennig gyda ni yn y dosbarth.

Ymweliad: Cafodd blant dosbarth Marchlyn gynnig i dreulio cyfnod yng ngwersyll yr Urdd, Glanllyn yn ystod y mis. Mwynhaodd pawb, gan gynnwys Miss Jones a Miss Mared. Diolch yn fawr i chi am roi eich amser i fynd a'r plant yno.

Diolch: Diolch yn fawr i Gyfeillion yr Ysgol am drefnu noson wych o ddawnsio yn ddiweddar. Trefnodd Cass Meurig i Glwb Ffidil Eryri berfformio mewn 'Twmpath' i godi arian i gronfa'r Cyfeillion.

Cafodd pawb hwyl fawr - plant, rhieni a staff yn troi a chwyrlio i'r gerddoriaeth draddodiadol! Yn y gegin roedd Tracie, Helen a Sam yn brysur gyda'r teisennau cri, y bara brith a'r sudd diddorol! Aeth pawb am adref yn hapus a swm anrhydeddus wedi ei godi. Diolch bawb am gefnogi!

Braf oedd gweld pawb yn cefnogi ein tîm rygbi cenedlaethol cyn gêm bwysig. Roedd pawb, gan gynnwys y staff, yn eu crysau coch a'r Cyngor Ysgol wedi trefnu i elw'r dydd fynd i elusen Macmillan.

EGLWYS ST GABRIEL. Cynhaliwyd yr Wyl Ddiolchgarwch ar ddydd Sul, 2il o Hydref. Cawsom wasanaeth o'r Cymun a phregeth Ddiolchgarwch am 9.30 y bore hefo Deon Bro Arfon, y Parchedig Lloyd Jones. Mrs Heulwen Parry oedd wrth yr organ.

Dymuna'r Parchedig Lloyd Jones a'r Warden ddiolch i bawb am addurno'r Eglwys mor hardd ac am y rhoddion o lysiau, ffrwythau a blodau dros yr Wyl.

NOSON BINGO. Nos Lun, 3ydd o Hydref, cynhaliwyd Noson o Bingo yn yr Ysgol Gymuned. Diolch am y rhoddion ariannol ac am y rhoddion at y raffl a'r gwobrau a diolch i bawb am eu cefnogaeth. Roedd yr elw yn mynd i Gronfa Eglwys St Gabriel. Diolch hefyd i Margaret ac Ann o Lanberis am alw'r rhifau ac hefyd i Sioned am werthu'r tocynnau raffl. Diolch i'r genod te a'r dynion. Diolch o galon i bawb.


Enillwyr y Raffl Fawr oedd: £50: Les Williams, Nant Forgan, Cwm y glo; £30: Bob (879068); £20: Huw Roberts, Derlwyn, Cwm y glo; Tocyn Padarn Lake: Claudette (879068); Tocyn Tesco: (669034); Tocyn petrol: Elen, Llanrug; Tocyn Morrisons: Diane Roberts; Tocyn Wavell: Bryn, Min y Don, Brynrefail; Gwin: E. Williams, Llanrug; Bocs nwyddau: Martyn Murphy, Llanrug; Bocs o lysiau: Tracey Jones, Cwm y glo; Bocs o ffrwythau: Brian Wakeham, Llanberis; Siocled: John Ogwen, Bangor; Gwin: Mai Davies, Llanrug; Bocs o ffrwythau: Bet Whist; Darlun: Dot Carter, Llanrug; Siocled: Kate Pritchard, Dolafon; Bocs o lysiau: Doreen Roberts, Llanberis; Tin o Roses: Menai Jones, Groeslon; Bocs o lysiau: Bryn Williams, Llanrug; Gwin: Seb, Bryn Crwn, Cwm y glo; Jigsô: Jean Jones, Llanrug; Gwin: Eileen Roberts, Llanberis; Powdwr: J. Roberts, Brynrefail; Marc Llyfr: Katrin Owen, Felinheli; Tlws addurn: A. Jones, Bethel.

Enillwyr y raffl ar y noson oedd: Doli: Caryl Emlyn, Cwm y glo; Clustog: Myfanwy Roberts, Llanrug. Enillydd y tocyn pêl-droed: Myfanwy Roberts, Llanrug.

Diolch o galon i bawb am eu cefnogaeth a'u presenoldeb.

UNDEB Y MAMAU Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol y gangen yn Feed my Lambs Caernarfon bnawn Mawrth, Hydref 18. Croesawodd Mrs Auriel Howels bawb i'r cyfarfod a chafwyd gwasanaeth byr gyda'r Ficer, Y Parch Jeffrey Hughes yn rhoi y fendith. Darllenodd Mrs Howels gofnodion o'r cyfarfod a gafwyd y llynedd a phasiwyd eu bod yn rhai cywir. Cytunodd y swyddogion i wneud eu swyddi am flwyddyn arall. Trafodwyd materion perthnasol gan Mrs Howels. Cafwyd amser wedyn i brynu oddi ar y stondin.

Yn gofalu am y lluniaeth oedd Mrs Dorothy Jones a Mrs Marjorie Roberts a diolchwyd iddynt gan Mrs Howels. Enillwyd y raffl gan Mrs Joan Griffith. Terfynwyd trwy adrodd y gras



**GWYNANT
PIERCE**

Cynrychion Coed:
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol

Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG

Ffôn: (01286) 674183
(0589) 899901



**ORIEL
CWM**
Cwm y Glo

Ffôn/Ffacs:
(01286) 872882

Gwasanaeth Fframio
Lluniau o bob math
Ar gael ar y safle
Prisiau Rhesymol
Arddangosfa o luniau
gwreiddiol gan Artistiaid
Lleol
Richard S. Humphreys

GWASANAETH GOFAL CARTREF
Caredigcyf

GOFALU AM EIN CYMUNEDAU

• **ASESU MEWNOL A CHYNLLUN GOFAL**

• **GOFAL PERSONOL-BATHIO**

• **CYMORTH I GODI A MYND I'R GWELU**

• **EISTEDD YN YSTOD Y DYDD
A GYDA'R NOS**

• **GLANHAU • SIOPA • COGINIO • OWTIN**

• **CEFNOGI POBL**

• **CYSYLLTU A GWASANAETHAU
ARBENIGOL**

A ydych yn hoffi gweithio a phobl neu ffansi gyrfa newydd?

*Mae Caredig Cyf yn awyddus i gyflogi pobl lleol i weithio gyda'n cwmni. Mae hyfforddiant a chefnogaeth trwyadl ar gael. Rydym yn recriwtio yn gyson fel mae'r cwmni yn ehangu ac angen gweithwyr i weithio unai rhan amser, amser llawn neu gyda'r nos. Am fanylion pellach cysylltwch a-

Iola neu Ellis Wyn Jones ar-

Bangor 01248 672622 • Llun i Gwener • Oriau'r Swyddfa 9-5pm.

UNED F3 • INTEC-FFORDD Y PARC • PARC MENAI • GWYNEDD LL57 4FG

FFON-01248 672622 • FFACS- 01248 672601

EBOST- post@caredig.com

DYMUNA Mrs Eluned Roberts, Maes Gwylfa, ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w theulu, cymdogion a'i ffrindiau oll gan na fydd yn anfon cardiau Nadolig eleni.

CYDYMDEIMLWN gyda Bryn a Helen, 9 Tai Caradog, o glywed am farwolaeth mam Bryn yn ddiweddar.

COFION. Anfonir ein cofion at rai a fu'n wael neu'n derbyn triniaeth ysbyty yn ddiweddar.

CYNHALIWDYD Deuddydd o Roddion yn Nhŷ Elidir yn ddiweddar, i godi arian at Apêl Dwyrain Affrica a gaiff eu hanfon trwy Cymorth Cristnogol. Cyfanswm y casgliad oedd £560.00 Diolch yn fawr i bawb a gyfrannodd.

DYMUNA teulu'r ddiweddar Margaret Rose (gwraig y diweddar Owie Erw Fair) ddatgan eu diolch am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth lem o golli mam, nain a hen nain annwyl. Diolch hefyd am y rhoddion hael a dderbyniwyd tuag at yr elusennau Marie Curie a Hafan Menai.

CYMDEITHAS CYFEILLION EGLWYS CRIST LLANDINORWIG

Y Faenol Arms, Pentir oedd man cyfarfod Y Gymdeithas i gynnal eu Swper Cynhaeaf, yn gynharach y mis hwn. Y wraig wadd am y noson oedd y Parchedig Nia Williams, Bethesda, a chyn dechrau ar y wledd ardderchog oedd o'n blaenau arweiniodd ni mewn gweddi o ddiolch.

Cyflwynwyd Y Parch Nia Williams gan y Llywydd, Mrs Rosina Worth, a thema'r noson oedd Diolchgarwch. Bu cryn drafod a hel atgofion difyr ar sut y treuliwyd Diolchgarwch sawl blwyddyn yn ôl. Ym meddiant y Parch Nia Williams mae llyfr yn dyddio'n ôl i 1883 o'r enw 'Y Flwyddyn Eglwysig' sef myfyrdodau priodol, yn seiliedig ar 'Gwyliau drwy'r flwyddyn,' gan y bardd ar emynwr enwog - Nicander - ac 'roedd wedi dod â'r llyfr gyda hi. Terfynodd ei sgwrs trwy ddyfynnu peth o farddoniaeth Nicander, oedd yn addas ar gyfer Diolchgarwch, fel a ganlyn:

Os rhoi i'r Arglwydd o dy fodd

Derbynia'r rhodd yn fenthyg.

Dy rodd yn ôl er llwydd a lles

I'th fonwes tâl yn ganblyg.

Diolchwyd i'r Parch Nia Williams am noson ragorol gan Mrs Jennie Williams ac aeth pawb adref wedi cael gwledd ym mhob ystyr y gair.

CYMDEITHAS UNDEBOL. Llywyddwyd y noson gan y Parchedig John Pritchard. Cafwyd dechrau da i dymor y gaeaf ar nos Lun, 26 Medi, i'r Gymdeithas Lenyddol. Y canwr a'r bardd, Geraint Lovgreen, Caernarfon oedd yn cadw'r noson i ni ac, fel y gellid disgwyl, cafwyd cymysgedd o'r dwys a'r digri yn ei gerddi a'i ganeuon. Diolchwyd iddo a ran y gymdeithas gan Mr Brian Price. Bydd y cyfarfod nesaf yn Hydref pryd y cawn edrych ymlaen am sgwrs gan Mr Dei Tomos, Nant Peris



LLONGYFARCHIADAU i Steffan Robin Jones o Glwt y Bont a enillodd gystadleuaeth snwcer o dan 16 oed yn Llanfairpwll o dan arweiniad Paul Thornton.

CEUNANT

DYMUNA

Owena, Eirlys a Gwynn a theulu'r ddiweddar Olwen Jones, 'Y Garth', ddiolch yn ddiffuant i'w perthnasau, ffrindiau a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwyd a amlygwyd atynt yn eu profedigaeth o golli Mam arbennig iawn, Nain garedig a Nan Nan hoffus.

Diolch i bawb yng Nghartref Gofal Plas Garnedd, Llanberis, am eu gofal tyner. Hefyd i 'Gymorth Llaw', am eu cefnogaeth yn Y Garth ac i'r Meddygon a'r Nyrsys o Feddygfa Llanberis am eu ffyddlondeb. Diolch hefyd i'r Parch Marcus Robinson a'r Parch Geraint Hughes am wasanaeth teimladwy a chlodwiw ac i'r organyddes, Mrs Mair Hughes, a'r Ymgymerywyr o E.W. Pritchard Llanberis am eu trefniadau teimladwy a thrylwyr. Gwerthfawrogir y rhoddion anrhydeddus tuag at Gartref Gofal Plas Garnedd, Llanberis ac Ambiwlans Awyrt Cymru.

PADARN LAKE

LLANBERIS (01286) 870260



**PRYDAU DA AR GAEL
POB DYDD**

**CANOL DYDD
A GYDA'R NOS**

**Cinio Dydd Sul (CARVERY) rhwng
12.30 a 3.00 o'r gloch**

TE BACH POB DYDD RHWNG 2.30 a 5.00

Cyfleusterau- Bartion • Priodasau ac Achlysuron Arbennig

GWASANAETH LLEOL AR GYFER
PARTION • PRIODASAU
PEN-BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU

**RHOSTIO
MOCHYN**
AR GYFER
POB ACHLYSUR

* Cig o ffermydd lleol
* Partion rhwng 40 a 400!
* Gyda saws afal a stwffin mewn
rholiau
* Efo salad hefyd os dymunwch

DEWCS, MAE O'N FLASUS!
Cysylltwch â
JOHN BRYNAFON
LLANRUG

Y DYNGIG ar 675190 / 673188
Ffôn symudol: 07798 718188
Gwefan: www.ydyncig.co.uk

Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad
Arfon

Os oes gennych fater yr
hoffech ei drafod gyda'ch AC
mewn cymhorthfa, yna
cysylltwch ag ef yn ei
swyddfa yng Nghaernarfon
neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
alunffred.jones@cymru.gov.uk

YSGOL DOLBADARN

Roedd teimladau cymysg iawn wrth ddychwelyd i'r ysgol ar ôl gwyliau'r haf gan fod Mr Rolant Wynne a Ms Wenna wedi ein gadael, yn

ogystal â disgyblion Blwyddyn 6. Dymunwn y gorau iddynt i gyd!

Mae ambell wyneb cyfarwydd yn dychwelyd yn ôl i'r Ysgol.

Croeso mawr i Mr Iwan Harding fel athro llanw atom yn ystod cyfnod mamolaeth Mrs Davies. A chroeso hefyd i Miss Lois fel cymhorthydd yn

y Cyfnod Sylfaen.

Bydd nifer o gyn-ddisgyblion yn ymuno â ni hefyd yn ystod y tymor ar brofiad gwaith neu gyrsiau hyfforddiant. Croeso yn ôl i chi i gyd.



Mr Wynne yn ystod ei ddiwrnodau olaf yn yr ysgol.



Swyddogion Diogelwch y ffyrdd yn barod i roi cymorth i blant yr ysgol



Mae Tîm Gwyrdd yn barod i gychwyn ar eu dyletswyddau o fonitro y defnydd o ynni yn yr ysgol a byddant yn gweithio'n agos â swyddogion y Cyngor er mwyn gwneud yn siŵr ein bod yn gofalu am yr ysgol a'r amgylchedd.



Daeth 23 o wynebau bach newydd i'r ysgol hefyd, sef plant y Dosbarth Meithrin. Mae pawb wedi ymgartrefu yn dda iawn yn barod.



Mae cynrychiolwyr y Cyngor Ysgol wedi eu hethol gan ddisgyblion yr ysgol. Cadeirydd y Cyngor eleni yw Thomas Collins Blwyddyn 6.

Ffrindiau A Chyfeillion Ysgol Dolbadarn, Llanberis

Noson Tân Gwylt

I'w gynnal yn Ngwesty'r Padarn Lake, Llanberis. Nos Sadwrn Tachwedd 5ed am 6 o'r gloch.

Stondinau teisennau a phopcorn a llawer mwy!

DISGO i'r plant tan 9 y.h

Dewch i gefnogi os gwelwch yn dda! (Diolch i Rhian ac Elwyn am eu cefnogaeth eto eleni!)

H.E. HUGHES

A'I FEIBION

Bwthyn Gadlys

LLANBERIS

Ffôn: 870444



★ Gwerthwr Glo
★ Olew Gwres Canolog
i'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!



RHEILFFORDD LLYN PADARN

POBLOGAIDD YN 2010

HELFA CALAN

GAEAF

HANNER TYMOR YR HYDREE

MWYNHEWCH

DAITH OFNUS

DRWY GOEDWIG Y

GWRACHOD A

Trenau'n ddyddiol o 11eg y bore tan 2.45 y prynhawn



Prisiau arferol
Tocynnau teulu ar gael

Caffi a Slop ar agor

Barc Gwledig Padarn, Llanberis, Gwynedd LL55 4TY
www.lake-railway.co.uk 01286 870549

PANED AM DDIM!

Hoffem gynnig paned o de neu goffi am ddim i ddau. Y cyfan sydd rhaid ei wneud yw dangos yr hyshyseb hwn yn y caffi. (yn ddilys tan 29.10.11)

Mae Sion Corn yn ei ôl!!

Mwynhewch daith fer ar drân arhennig Sion Corn i lecydd buddolus gar y llyn. Anbragion i'r plant a mins pei a diort tymborol i'r oedolion.

Rhagfyr 4ydd, 10fed/11eg, 17eg/18fed
Oedolion a phlant o £7.00
(plant o dan dair oed o £3.00)

Rhaid archebu o flaen llaw



Gweithgareddau

Bydd y disgyblion hynaf yn astudio agweddau o'r 'Gofod a Dyfeiswyr' y tymor yma a'r plant ieuengaf yn dysgu am 'Yr Hydref' a 'Theithio'.

Bydd Plant Blwyddyn 2 yn cael eu hyfforddi gan y cwmni Dawns i Bawb am gyfnod hyd at hanner tymor ac yr ydym yn edrych ymlaen yn fawr i weld y perfformiad.

Bydd disgyblion yn cystadlu yn Nhwrnament Rygbi Eryri ac yng Ngala Nofio yr Urdd yn fuan.

Bydd sesiynau Urdd ar gyfer disgyblion Blwyddyn 1-2 (Clwb Mistar Urdd) yn cychwyn ar ôl hanner tymor a gweithgareddau ar gyfer Yr Adran Iau pob pythefnos. Yr ydym yn awyddus iawn i gael cymorth i drefnu gweithgareddau difyr yn y Gymraeg ar gyfer y disgyblion. Os ydych yn awyddus i gynorthwyo neu i gynnig syniadau, byddem yn falch iawn o glywed gennych.

Ffrindiau a Chyfeillion yr ysgol

Cynhaliwyd Noson Bingo yng Ngwesty'r Dolbadarn yn ddiweddar - diolch i bawb am noson lwyddiannus, yn enwedig y merched sy'n ein cynorthwyo bob blwyddyn, a pherchnogion Gwesty'r Dolbadarn am eu croeso. Casglwyd £250 tuag at Gronfa'r Ysgol. Mae'n fwriad gennym i drefnu ar gyfer Noson Tân Gwyllt yng Ngwesty'r Padarn Lake ar Nos Sadwrn, Tachwedd 5ed, am 6 o'r gloch. Os oes rhywun yn fodlon cynnig cymorth gyda'r digwyddiadau hyn cofiwch gysylltu â'r ysgol.

DIOLCH Dymuna Edryd Sharp a Louise Jones ddiolch i bawb am bob dymuniad da a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur eu dyweddiad yn ddiweddar.

DIOLCH Dymuna Ernest a Nan, 8 Rhes Efrog, ddiolch o galon i deulu, cymdogion a chyfeillion am yr holl anrhegion, cardiau, galwadau ffôn ac arian a dderbyniwyd ar achlysur dathlu eu Priodas Aur yn ddiweddar. Anfonwyd yr arian i Ambiwylans Awyr Cymru. Diolch yn fawr i bawb.

DIOLCH Dymuna Helen Sharp ddiolch yn fawr i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y dymuniadau da, y llu cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei hymddeoliad yn ddiweddar.

DIOLCH Dymuna Carol Roberts, 11 Coed-Y-Glyn, ddiolch i'w theulu, cymdogion a'i holl ffrindiau am eu caredigrwydd tuag ati yn dilyn ei llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

GWERTHFAWROGIAD. Dymuna John a Mattie Hughes, Glyder, Ffordd Capel Coch, ddatgan eu gwerthfawrogiad am bob cefnogaeth a chydymdeimlad â theulu a ffrindiau'r ddiweddar Carrie Hughes, Plas Garnedd (gynt o 5 Ffordd Padarn, Llanberis).

Diolch am y gofal tyner fu tros Carrie gan Mr Iwan Pritchard, Nesta, a phawb yng Nghartref Preswyl Plas Garnedd dros y blynyddoedd olaf o'i bywyd, yn ogystal â'r sylw manwl a roddwyd iddi gan Feddygon Cae Heti, Llanberis. Gwerthfawrogir hefyd Staff Ward Aran, Ysbyty Gwynedd, am eu caredigrwydd diflino tuag at un oedd mor annwyl yn eu golwg. Hefyd i'r Parch D. John Pritchard BA, BD am gynnal gwasanaethau gydag urddas iddynt. Ychwanegwyd at y naws hwn gan Mr Gareth Jones wrth yr organ. Yr oedd y trefniadau yng ngofal E.W. Pritchard, Trefnwyr Angladdau, Llanberis, a derbyniwyd sawl cyngor a chynhorthwy oddi wrth y Staff

EGLWYS SANT PADARN LLANBERIS

FFAIR ADFENT

Bore Sadwrn, 26 Tachwedd 2011

Gwesty Dolbadarn

11 yn y bore hyd 2 yn y pñawn

CANLYNIADAU, GWOBRAU A THYSTYSGRIFAU
AM 2y.p.
STONDINAU CACENNAU RAFFL TE/COFFI
CYSTADLAETHAU

Mynediad (yn cynnwys PanEd a Mins Pei) £2; Plant am ddim
Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Mrs Dilys Roberts 01286 871423

CYSTADLAETHAU

Croeso i unrhyw un gystadlu - Cost pob cais: 25c i blant a 50c i oedolion

Dewch â'ch eitemau i'r cystadlaethau erbyn 10 yn y bore.

Beirnedir am 10:30 yn y bore.

GWOBR £10.00 I'R GORAU YM
MHOB CYSTADLEUAETH DAN 18

ARLUNIO A CHREFT

Beirniad: Mrs Heulwen Parry, Llanrug

AC1: Dan 5 oed: Llun Seren

AC2: Derbyn i Bl: Llun Coeden Nadolig

AC3: Bl 3 i 6: Llun o'r Bugeiliaid

AC4: Bl 7 i 13: Creu Cracyr Nadolig Gwreiddiol

AC5: Plant (dan 18): Addurn Coeden Nadolig

AC6: Oedolion(dros 18): Addurn Bwrdd Cinio Nadolig

COGINIO

Beirniad: Mr Aneuryn Jones Perchennog Gwesty Dolbadarn

C1: Disgybl Ysgol Gynradd: 6 Cacen Gwpan wedi eu haddurno

C2: Disgybl Ysgol Uwchradd: 6 Mins peis

C3: Agored i Ferched: Log Nadolig

C4: Agored i Ddynion: Shortbread Nadoligaidd

FFOTOGRAFFIAETH

Beirniad: Emerson Hughes, Maes Padarn, Llanberis

Ffotograff heb ffrâm (dim mwy na 10x8 modfedd/25x20 cm)

Ff1. Dan 18oed: Anifail Anwes

Ff2. Oedolion: Unrhyw olygfa Aeafol.

LIMERIG

Beirniad: Mrs Anne Parry Jones

LG Agored i Bawb: Be ddaw yr hen Siôn i chi heno

CERIS JONES

Teglan,

Stâd Talybont

LLANRUG

677362

neu symudol

07979620996

- Trwsio ceir a faniau
- Gwaith MOT
- Mecanic profiadol iawn
- Prisiau cystadleuol

WAVELL'S

Bryn ac Angela Williams

London House, LLANRUG

Ffôn:

(01286) 673574

PEN CIGYDDION Y FRO

Yr Wŷn lleol mwyaf blasus,
Selsig cartref

Cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!

SWIGOD A SEBON

SYCHLANHAU

Altro • Ailwnio

GWASANAETH

Casglu a Danfon

Gwasanaeth Golchi a Smwddio

54 STRYD FAWR LLANBERIS

(01286) 870088


Ysgol Brynrefail




Llwyddiant Hoci
Llongyfarchiadau calonnog i Heledd Anna, Eleri Sweeney a Gwenno Gibbard sydd eisoes yn aelodau o dîm hoci Gwynedd, uchod, ar eu dewis i fynychu treialon tîm hoci Gogledd Cymru dan 18.



Ann Williams Swyddog Addysg Gogledd Cymru Cynulliad Cenedlaethol Cymru



Adran Ffiseg Cystadleuaeth her beirianeg



Fe ddaeth disgyblion blwyddyn 13 o nifer o ysgolion gogledd Cymru ynghyd ym Mhrifysgol Bangor ym mis Hydref ar gyfer cystadleuaeth Her Beirianeg. Cawsant eu dosbarthu i grwpiau cymysg a gorfod cyd weithio gyda chyfoedion nad oedd yn adnabyddus iddynt.

Yr her oedd dylunio ac adeiladu model gweithredol o beiriant creu gwifrau i'r 'grid' cenedlaethol.

Fe ddaeth Huw Hastings a gweddill ei dîm o bedwar yn ail yn y gystadleuaeth a chafodd pawb o fyfyrwyr Ysgol Brynrefail fwynhad o gymryd rhan yn y diwrnod.

Fe drefnwyd cyfranogiad Ysgol Brynrefail gan Bennaeth yr Adran Ffiseg, Dr Gareth Evans,

'Mae'r Her Beirianeg yn bwysig am nifer o wahanol resymau o gyd weithio gydag eraill i flasgu'r cyfleon gwaith sydd ar gael i fyfyrwyr ym myd peirianeg a thechnoleg.'

Cafwyd cyflwyniad diddorol gan Ann Williams, Swyddog Addysg y Cynulliad i fyfyrwyr blwyddyn 12 ar wleidyddiaeth a'r drefn wleidyddol yng Nghymru, Prydain ac Ewrop fel rhan o'u hastudiaethau ar gyfer y Fagloriaeth Gymreig.

Diddorwyd pawb gyda chyflwyniad difyr a chyfoes ganddi am hanes y Cynulliad, y drefn wleidyddol yng Nghymru a phwerau deddfau'r Cynulliad, Senedd Llundain a Senedd Ewrop.

Dosbarthwyd taflenni ganddi ar ran y Cynulliad i'r myfyrwyr nodi unrhyw syniadau/deddfau yr hoffon nhw drafod gyda gwleidyddion y Cynulliad. Dengys hyn fod gwleidyddion y Cynulliad yn barod i wrando ac ystyried barn pobl ifanc.

Cafwyd hefyd drafodaeth am ddeddfau rhyfedd sydd yn parhau mewn bodolaeth megis -

'Y mae'n gyfreithlon i Gymro gael ei saethu gyda bwa saeth o fewn welydd Caer wedi hanner nos!!'



Cynhadledd menter a busnes gyrfa cymru

Ddydd Gwener 16 o Fedi 2011 cynhaliwyd cynhadledd Menter a Busnes ar gyfer disgyblion blwyddyn deuddeg gan gynrychiolwyr o Yrfa Cymru. Rhannwyd y disgyblion yn dimoedd gwahanol, a chafodd pob tîm yr her busnes o gynhyrchu a marchnata faniau cardfwrdd ar gyfer eu defnydd mewn gwahanol ddiwydiannau. Mwynhaodd pawb y diwrnod gan ddatblygu sgiliau cyfathrebu, rhifedd, datrys problemau a gweithio fel rhan o dîm.

"Y byd i'n disgyblion a disgyblion i'n byd"



Adran daearyddiaeth
Gwaith maes

Ar y 30ain o Fedi a'r 4ydd Hydref 2011 fe drefnwyd gwaith maes i griw T.G.A.U. blwyddyn 11 ym Metws y Coed, a blwyddyn 12 yn Nyffryn Afon Glaslyn ac fe dderbyniwyd arweiniad gan Mrs Angharad Harris, Swyddog Addysg, Parc Cenedlaethol Eryri.

Yn Nyffryn Glaslyn bu disgyblion blwyddyn 12 yn casglu data am nodweddion sianel yr afon o ran lled, dyfnder, cyflymder y llif a maint a siâp y cerrig. Buont hefyd yn astudio'r gwaith a wnaethpwyd i arbed rhag llifogydd ym Meddgelert.

Bu blwyddyn 11 yn casglu data am Fetws y Coed fel 'pot mêl' i ymwelwyr. Yr oedd cryn holi ar y bobl leol ar y stryd gyda holiaduron a hefyd astudiaeth ar ddefnydd tir ac edrych ar effaith ymwelwyr ar y pentref.

Fe fydd y wybodaeth a'r canlyniadau a gasglwyd yn cael ei ddefnyddio tuag at waith asesiad ac arholiad allanol ar ddechrau'r flwyddyn newydd.

Fe drefnwyd y cyfan gan Bennaeth Yr Adran Daearyddiaeth, Mr Elfyn Roberts, sydd yn argyhoeddedig fod 'awr yn y maes yn well na diwrnod cyfan yn y dosbarth'.



Cwrs Coleg
Menai

Y mae Elin Haf o flwyddyn 10 ymhlith nifer o ddisgyblion Ysgol Brynrefail sydd wedi cychwyn ar gyrsiau yng Ngholeg Menai. Un elfen o'r cwrs yw coginio ac fe laniodd yn ôl ym Mrynrefail gyda Pizza swmpus o'i gwaith ei hun.

Ond!! Ni chafwyd ei rannu, a rhai yn yr Ysgol yn eiddgar ofnadwy, ond mynd â'r oll adref er mwyn i'r teulu ei fwynhau.



Y James Dyson Newydd?

Newyddion o adran Dylunio a Thechnoleg Ysgol Brynrefail
2 lun

Faint ohonoch sy'n hoffi hwfro eich tai? Faint ohonoch sydd berchen ar sugnydd llwch Dyson? Faint ohonoch sydd yn gwybod sut mae'n gweithio ac allan o ba ddefnyddiau maent wedi eu cynhyrchu? Wel, os oes gennych gwestiynau gofynnwch i unrhyw ddisgybl blwyddyn 10 Ysgol Brynrefail sydd yn dilyn cwrs Dylunio a Thechnoleg.

Cafwyd cyfle i edrych ar adeiladwaith sugnydd llwch Dyson, fel rhan o focs addysgiadol a ddaeth i'r ysgol am fis. Roedd y bocs hefyd yn cynnwys nifer o rannau ble roedd y disgyblion yn cael eu tynnu yn rhydd, er mwyn dysgu sut mae cynhyrchion wedi eu dylunio a'u cynhyrchu.

Synnwyd nifer o'r disgyblion i wybod fod James Dyson wedi cynhyrchu dros 5000 o brototeipiau cyn iddo gael yr un cyntaf i weithio yn iawn. Faint o'n pobl ifanc ni oes yma fysa'n gallu dangos yr un ymroddiad a dyfalbarhad?

Roedd y disgyblion yn frwd iawn wrth ddatgymalu'r eitemau, a diolch i'r drefn llwyddodd pob grwp i ailosod y gwrthrych yn ôl gyda'i gilydd yn gywir.

Dywedodd Robin, 'Roedd yn brofiad anhygoel ac nid oeddwn wedi sylweddoli gymaint o waith oedd wedi mynd i fewn i gynhyrchu un o'r rhain.'

Dywedodd Sian, Manon a Hanna "Roedd hi'n hwyl cael datgymalu y Dyson. Rydym wedi dysgu llawer, a ni fyddwn yn edrych ar sugnyddion llwch yr un ffordd eto.'

Dymuna Eirwen Williams ddiolch yn ddifffuant i staff, disgyblion, cyfeillion a thrigolion dalgylch Ysgol Brynrefail am y llu o ddymuniadau da, cardiau, anrhegion a geiriau caredig a dderbyniodd ar achlysur ei hymddeoliad o Ysgol Brynrefail. Diolch o galon.

Parhad LLANBERIS eto... VV

LLONGYFARCHIADAU
i Mona Jones 17 Dôl Eilian, ar ddod yn hen-nain am y tro cyntaf i Deio Emlyn Wyn, a anwyd ar y 4ydd o Hydref i Mari Emlyn a Meilir Wyn, sy'n byw ym Methesda. Hefyd, llongyfarchiadau i June a Dei, merch a mab-yng-nghyfraith Mona, ar ddod yn nain a thaid am y tro cyntaf.

Y GYMDEITHAS UNDEBOL.

Cynhelir cyfarfod agoriadol y Gymdeithas yn Festri Capel Coch Llanberis ar nos Fawrth, Hydref y 25ain am 7yh. Cawn ein diddanu ar y noson gan Y Glaslanciau o ardal Porthmadog.

Sylwer, oherwydd amgylchiadau anorfod, mae'r cyfarfod hwn bythefnos yn hwyr a bydd y cyfarfod nesaf o'r Gymdeithas ar nos Fawrth, Tachwedd yr 8fed, yn y Festri am 7yh fel arfer, pryd y cawn sgwrs gan y Doctor Graham Thomas am ei 'Ymweliadau Tramor'.

Croeso cynnes iawn i aelodau, hen a newydd, i'r Gymdeithas.

CÔR DYFFRYN PERIS.

Mae'r amser yma o'r flwyddyn yn un prysur iawn i'r Côr: cyngerdd llwyddiannus iawn yn Llandudno ar Fedi'r 27ain; cyngerdd yn Trefnant, ger Dinbych ar nos Sul Hydref y 23ain; cyngerdd blynyddol yng nghanolfan Rhosgadfan ar Hydref 28ain a Bingo, er lles y Côr, yng Ngwesty Dolbadarn nos Wener y 4ydd o Dachwedd am 7.30.

Rydym fel Côr yn dymuno adferiad buan i'n cyfeilyddes, Mrs Hefina Jones, yn dilyn ei llawdriniaeth yn Ysbyty Wrecsam yn ddiweddar.

Mae'r Côr yn edrych allan am aelodau newydd i ymuno â hwy. Cysylltwch â'r ysgrifennydd, Mrs Hefina Jones, 01286 871006, neu unrhyw aelod o'r Côr am fwy o fanylion.

GAIR O DDIOLCH

Dymuna Muriel Morris, 16 Maes Padarn, ddiolch o galon i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am yr anrhegion, cardiau a blodau a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 80 oed. Diolch yn fawr i bawb.

Carnifal



Cafwyd y llun hwn gan Anita Butler, Llanfairfechan. Mae hi'n nabod sawl un, ond nid pawb. Pa flwyddyn oedd hi?

- Priodasau • Dathliadau
- Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
- Pwyllgorau • Bwydlen Bar

THE LEGACY
ROYAL VICTORIA HOTEL
LLANBERIS

with a room in Wyddfa

Ffôn: 08444 119 003

Côr Dinas Bangor

Ar ôl llwyddiant mawr y daith i Awstria yr oedd gan y Côr ddau ymddangosiad mewn cyngherddau cyn cael ychydig o wyliau. Ar nos Fercher 28 Medi canodd y Côr mewn cyngerdd yn Eglwys St Mair, Y Gelli, Tregarth i godi arian tuag at yr Eglwys. Cafodd y Côr groeso gan y Ficer, y Parch. John Matthews, ac yna cyflwynodd Dafydd Ellis raglen y Côr. Y cyfeilydd oedd Lowri Roberts Williams a James Griffiths yn arwain. Cafwyd eitemau unigol gan Gareth Hughes (Euphonium) a Norman Evans (Bas). Hefyd cafwyd unawdau hefo'r Côr gan Bob Thomas, David Hughes ac Aneurin Jones.

Ar 11 Hydref canodd y Côr unwaith eto yn Eglwys Sant John Llandudno - cafodd y Côr sawl cyngerdd llwyddiannus iawn unwaith eto eleni yn yr eglwys hon.

Dyma gyngerdd olaf y Côr cyn cael mis o wyliau haeddiannol iawn ar ôl blwyddyn brysur dros ben.

Bu'r Côr yn canu mewn sawl cyngerdd yn ystod Awst, cyfnod pan fydd y rhan fwyaf o gorau eraill yn cymryd gwyliau.

Y mae'r arweinydd, James Griffiths, yn mynd i Wlad Thai i arholi i Coleg Trinity Guildhall, Llundain ac felly, am tair wythnos ar ddiwedd Tachwedd a dechrau Rhagfyr, y Dirprwy Arweinydd, Gwilym Lewis, fydd yn cymryd y Côr.

Bydd y Côr yn canu yn Ysgol y Faenol ar ddechrau Rhagfyr i helpu'r ysgol godi arian yn eu Ffair Nadolig.

Gyda golwg ar y flwyddyn nesaf y mae'r Côr eisoes wedi cael gwahoddiad i ganu hefo nifer o artistiaid eraill mewn cyngerdd mawr yn Neuad PJ, Bangor, ym mis Mawrth i godi arian at Eisteddfod yr Urdd.

Bwriad y Côr yw canolbwyntio ar gael mwy o aelodau yn ystod yr wythnosau sydd i ddod. Y mae lle i aelodau newydd ym mhob adran o'r Côr gyda phwyslais ar y baswyr yn enwedig. Y mae pwyslais mawr yn mynd i fod ar ricriwtio cantorion newydd.

Felly os yw unrhyw un â diddordeb mewn ymuno â chôr brwdfrydig sydd yn cael sawl cyfle i deithio ac yn cael cyngherddau llwyddiannus lleol a phellach, gellir cael mwy o fanylion oddi wrth yr arweinydd ar 01248352966 neu drwy gysylltu ag unrhyw aelod neu drwy ddod i Ysgol y Faenol, Penrhosgarnedd rhwng 7.30 a 9.30 yr hwyr ar unrhyw nos Fercher o Tachwedd 16 hyd at y Nadolig neu yn y flwyddyn newydd.

Y mae bod yn aelod o gôr meibion yn brofiad hynod iawn ac yn un sydd yn wefreiddiol oherwydd mae y canu yn rhoi cymaint o bleser i eraill ac mae hynny ynddo'i hun yn rhoi boddhad a phleser i bob aelod.

Peidied neb â bod yn swil. Dowch draw i wrando unrhyw adeg - bydd croeso mawr yn eich disgwyl.

DODREFN PERKINS

(Safle'r hen Nelson) CAERNARFON

Ffôn: (01286) 676 040

- Pob math o ddodrefn tŷ
- Cegin, 'stafell fyw, llofft
- Prisiau cystadleuol
- Carpedi, Llenni a Lloriau Pren

YSGOL WAUNFAWR

Glan-llyn. Treuliodd 26 o blant blwyddyn 5 a 6 yn dridiau yng Nglan-llyn ddechrau mis Medi gyda disgyblion Ysgol Bethel a Chwm y glo. Diolch i'r 5 aelod o staff am roi o'u hamser i oruchwylio'r plant. Cafodd pawb amser gwych. Dyma adroddiad dau o flwyddyn 6.

Dyddiadur Glan-llyn - Cai Morgan

Diwrnod 1: Wythnos diwethaf mi es i Lan-llyn. Cefais lawer o hwyl yno, yn rhannu ystafell gyda Carwyn, Owain, Keiran a Mabon. Y gweithgaredd cyntaf wnaethom ni oedd dringo'r wal ddringo. Mi roedd 'na 5 wal ddringo yno ac mi wnes i ddringo bob wal i'r top! Ar ôl te aethom ni i'r pwll nofio ac oedd na sleid enfawr yno, cawsom lawer o hwyl yno a cawsom wyllo DVD.

Diwrnod 2: Ar ôl cael brecwast cawsom fynd ar y cwrs rhaffau. Mi roedd yn llawer o hwyl, wedyn cafodd pawb ginio. Wedyn cawsom wneud cyfeiriannu, fy mhartner i oedd Keiran. Wedyn aethom i nofio eto a gwyllo ffilm arall. Wedyn cawsom fynd i ddisgo. Mi roedd yn lot o hwyl ac erbyn diwedd y disgo mi oni yn chwysu fel camel wedi dawnsio gymaint!

Diwrnod 3: Cawsom frecwast bendigedig ar y diwrnod olaf. Wedyn ymlaen i fynd i ganwio. I ddechrau mi dynnodd y staff Glan-llyn y tri canw wedi clymu i'w gilydd hefo speedboat. Cawsom fynd am dro rownd Llyn Tegid ac wedyn stopio ar ynys. Cawsom chwarae gemau gyda'r rhwyfau, ac wedyn mynd yn ôl i gael cinio. Wedyn mi roedd y bws yn disgwyl i fynd a ni adra. Hwn oedd un o'r triapiau ysgol gora dwi di bod arno!

Dyddiadur Glan-llyn Rhiannon Tomos

Dydd Llun. Cyrhaeddom ni yng Nglan Llyn ar Hydref y 3ydd, arhoson ni am dair noson. Unwaith cyrhaeddom ni yn y gwersyll cawsom ni ein rhannu i ystafelloedd gwahanol. Roedd y genethod yn y plas a'r hogia tu allan. Ar ôl setlo i mewn yn ein ystafelloedd, canodd y gloch ac roedd rhaid i bawb fynd i'r neuadd Ymgynnull i'r staff cael dweud y rheolau wrth y plant. Cawsom ni ginio yno rhyw 12:30. Roeddwn yn rhannu ystafell gyda Chloe, Anest, Cara a Lauren.

Ein gweithgaredd cyntaf ni oedd y cwrs rhaffau. Pan es i lawr y weiran, disgynnais i lawr ar fy mhen ôl a hitio fy mhen ar y twr, dywedais fod o yn beth lwcus bod fi yn gwisgo helmet. Ar ôl te bach aethom i fowlio deg. Chloe enillodd y gem. Fi oedd olaf! Dwi ddim yn dda o gwbl am fowlio! Aethom i nofio i bwl nofio Bala. Roedd y pwll yn hwyl. Es i lawr y sleid lawer o weithiau. Ar ôl mynd yn ôl i'r gwersyll cawsom ni wyllo Diary of a Wimpy Kid 2. Ar ôl y ffilm aeth pawb yn ôl i fynd i gysgu.

Dydd Mawrth. Am 7:45 deffrais. Am 8:30 aethom ni lawr i gael brecwast. Ein gweithgaredd cyntaf ni oedd adeiladu rafft. Disgynnodd y rafft yn ddarnau yn y dŵr yn 20 eiliad cyntaf! Roedd pawb yn socian! Nesi ddim hoffi'r gweithgaredd yma. Ar ôl sychu a newid aethom ni yn ôl i'r dŵr yn ôl unwaith eto i fynd ar y canws. Hoffais fynd yn y canws oherwydd cawsom ni gyfle i roi ein hwynebau yn y dŵr a chroesi o un canw i'r llall. Arhosom ar un darn o dir i chwarae gem efo'r padelli. Enillais un gem. Ar ôl sychu aethom i nofio yn y pwll nofio Bala, es i ar y sleidiau eto. Wedyn cawsom ni ddisgo da ofnadwy! Roedd brin iawn pawb yn dawnsio heblaw am rai o'r hogiau. Ar ôl y disgo aethom yn syth i weld Diary of a Wimpy Kid cyntaf. Pan oedd pawb yn yr ystafell yn cysgu roeddwn i yn pacio fel nid oedd eod rhaid i mi yn y bore.

Dydd Mercher. Deffrais yn hwyr fore dydd Mercher, roedd pawb arall bron a bod yn barod erbyn i mi ddeffro'n iawn! Dylai fi ddim wedi aros i fyny yn hwyr yn pacio. Dringo oedd ein gweithgaredd ni. Roedd hi wedi bod yn bwrw felly oedd y wal ddringo yn wlyb. Fi oedd y cyntaf i fynd arno o ochr ni, ond disgynnais oddi arno tua 10 o weithiau mewn 5 munud. Roedd cywilydd arna i pan roeddwn yn disgyn. Yn y diwedd mi lwyddais i'w wneud o. Ar ôl dringo aethom ar gwch eithaf mawr. O gwmpas y Llyn Tegid oedd y cwch yn mynd a ni. Roedd y tonau yn splasho ni, roedden ni yn socian! Roeddwn ni yn gwisgo dillad glaw ond oedd y dŵr wedi mynd trwy dillad glaw fi! Roeddwn i yn SOCIAN!!

Y peth gorau am y trip oedd y canwio, oherwydd cawsom ni ein tynnu gan y speed-boat yn ôl oherwydd roedd hi yn rhy wyntog. Y trip Glan-llyn gorau i mi oedd eleni!

Gwersi Nofio a Thenis. Mae plant Blwyddyn 2, 3, 4 a 5 wedi cychwyn ar eu gwersi nofio tra bod plant blwyddyn 6 yn cael gwersi tenis sydd yn cael eu cynnal yn wythnosol ar bnawn ddydd Mawrth.

Ailgylchu dillad. Diolch i bawb a gefnogodd yr ymgyrch ailgylchu dillad. Derbyniodd yr ysgol siec am £80.00 gan yr Antur, byddwn yn casglu dillad eto ddechrau'r flwyddyn newydd.

Ethol Llywodraethwyr. Rydym fel ysgol yn ddiolchgar iawn i'r 5 ymgeisydd a ddangosodd ddiddordeb i fod ar y Corff Llywodraethwyr y tymor hwn. Mae sawl ysgol yn cael trafferthion mawr i gael cynrychiolaeth ar eu Cyrff Llywodraethol. Llongyfarchiadau i Mr Alun Lewis, tad Seren dosbarth Meithrin; Mr Iwan Davies, tad Siôn Ifan, Efa a Cadi a Mrs Jana Jones, mam Gruff a Cai, am gael eu hethol yn aelodau am y pedair blynedd nesaf. Cynhelir cyfarfod i'r Llywodraethwyr nos Fercher Hydref 19eg am 6.30 o'r gloch.

ANTUR WAUNFAWR AILGYLCHU*Gwaredu Data***ANTUR****WAUNFAWR
AILGYLCHU****Llarpio Dogfennau Cyfrinachol**www.anturwaunfawr.org

ffôn: 01286 669330

swyddfa@anturwaunfawr.org**Gwasanaeth Gwres
a Plymio****Ar Gyfer Eich Holl Anghenion Gwres A Plymio**
Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser**Arwel Jones • Tyn y Maes • Gwm y Glo LL55 4DH**
Tel. (01286) 872225 Mobile- 07798 746718

Pobl ifanc yn teithio dros dyfodol gwell i'r blaned

(o ran diddordeb lleol, mae Taliesin, un o'r 8 o bobl ifanc oedd ar y daith, yn byw yn Ninorwig.)

Mae 8 o bobl ifanc o bob rhan o Gymru newydd ddychwelyd wedi mis ar daith efo prosiect sydd wedi rhoi eu hangerdd am newid hinsawdd ar waith. Mae'r grŵp yn rhan o fudiad ieuencid o'r enw Dyfodol, sydd dan arweiniad pobl ifanc sy'n credu mewn addysgu a grymuso ei gilydd wrth weithredu tros ddatblygu cynaliadwy.

Dywed Anthony, 21 o Ddolgellau, 'Mae newid hinsawdd yn agos i fy nghalon am ei fod yn effeithio ein planed cyfan.'

Dywed Isabel, 21 o Aberaeron 'Mae newid hinsawdd yn cael effaith ar rhai pobl yn barod, ac fe fydd yn sicr yn effeithio ar fy nyfodol i, felly rwy isio gwneud rhywbeth am y peth cyn iddi fod yn rhy hwyr.'

Fel rhan o Brosiect Mongolia, aeth y grŵp hanner ffordd o amgylch y byd er mwyn gweithio gyda grŵp tebyg o bobli ifanc ym Mongolia. Bu'r grŵp yn gweithio gyda Greenbell, mudiad a sefydlwyd gan grŵp o bobl ifanc yn Ulaan Baatar er mwyn gwneud rhywbeth ynglŷn â materion amgylcheddol. Dywed Rosie, 16 oed o Rydlewys 'Mae criw Greenbell yn meddwl fel ni. Roedd yn wych treulio amser gyda nhw.'

Dywed Sannan, 19 oed o Dregaron, 'Roedd yn ffrainc imi gael treulio amser ym Mongolia gyda grŵp o bobl sydd mor frwdfrydig a diflewyn-ar-dafod.'

Bu'r grŵp yn cydweithio â Greenbell wrth gynnal cyfres o weithdai am newid hinsawdd i fyfyrwyr mewn

ysgolion a phrifysgolion lleol. Nod y gweithdai oedd codi ymwybyddiaeth o broblemau, ym Mongolia a ledled y byd, a'r hyn mae pobl ifanc yn gallu gwneud amdanynt. Roedd hefyd yn gyfle i'r bobl ifanc rhannu sgiliau, fel sut i eich cyfoedion, gyda phobl ifanc Greenbell. Dywed Rosie. 'Mae cyflwyno sesiynau a gweithdai wedi bod yn ffordd dda o gyfleu neges bositif a rhoi cyfle i bobl dod yn rhan o rywbeth.'

Tra'r oeddent yn Ulaan Baatar, cafodd y grŵp gyfarfod â Gweindiog Amgylchedd

Mongolia, a chyflwyno llythyr iddo gan John Griffiths, Gweinidog yr Amgylchedd yma yng Nghymru. Mae'r llythyr yn annog iddo wrando ar lais pobl ifanc wrth wneud penderfyniadau ynghylch materion amgylcheddol. Roedd

Gweinidog Amgylchedd Mongolia yn frwdfrydig am y gwaith mae Dyfodol a Greenbell wedi bod yn ei gwneud ar y cyd, ac fel canlyniad wedi addo cefnogi'r digwyddiad mae Greenbell yn ei gynnal ar gyfer 350 ar 24ain mis Medi (gweler isod).

Dywed Taliesin, 16 oed o Ddinorwig, 'Roedd yn wych cael cyfarfod â'r Gweinidog Amgylchedd. Roedd yn gefnogol iawn o Greenbell ac mae o isio cynnal perthynas efo nhw.' Dywed Anthony, 'Roedd y cyfarfod yn ddiddorol ac yn ddefnyddiol iawn, a dwi'n gobeithio bod ni wedi helpu i Greenbell gael dweud eu dweud ym Mongolia.'

Bu'r grŵp hefyd yn ymweld dwywaith â gwahanol deuluoedd o fugeiliaid

crwydrol, er mwyn gweld â'u llygaid eu hunain sut mae newid hinsawdd yn effeithio ar y ffordd draddodiadol, nomadaidd o fyw. Dywed Melody, 21 oed o Gwmbrân, 'Aethom ni i ddau ger gwahanol i ddysgu am sut maen nhw'n byw. Roedd yn oer iawn yr ail dro, ac roedden ni'n tybed sut medren nhw fyw dan amodau mor anodd. Mae llawer iawn yn haws gweld effaith newid hinsawdd rhywle fel hyn nac mewn dinas.'

Yn ôl egwyddorion Dyfodol a'r prosiect, penderfynodd yn grŵp deithio i Fongolia - dros 6,000 milltir o Gymru - ar hyd y cledrau, yn hytrach nag ar awyren. Cymerodd y daith 7 diwrnod pob ffordd, ac roedd y rhan fwyaf hynny ar lwybr y Trans-Siberian trwy Ffederasiwn Rwsia. Ar y daith yno, gwnaeth y grŵp ddefnydd da o'u hamser wrth baratoi ar gyfer y gweithdai, ac ar y ffordd yn ôl yn trafod y prosiect a chreu ffilmiau ac ati. Dychwelodd y grŵp ddiwedd wythnos ddiwethaf, wedi teithio trwy Rwsia, Belarus, Gwlad Pwyl, yr Almaen a gwlad Belg.

Dywed Melody, 'Wrth gwrs aethon ni ar y trê! Mae wedi bod yn anhygoel, a ry'n ni wedi cyfarfod â lot o bobl cwl.' Dywed Twm, 19 o Aberystwyth, 'Gall fod yn anodd byw ar y trê, ond ma'n brafach o lawer na hedfan, ac mae gymaint yn well i'r amgylchedd. Mae wedi bod yn brofiad anhygoel.'

Toc wedi i'r grŵp ddychwelyd i Gymru, ar ddydd Sadwrn, 24ain o Fedi, roedd aelodau

Greenbell yn brysur cynnal digwyddiad ar gyfer diwrnod 350 yn Ulaan Baatar. Mae 350.org yn ymgyrch rhyngwladol, lle mae grwpiau ledled y byd yn gweithredu er mwyn codi ymwybyddiaeth mai 350 rhan mewn miliwn yw'r uchafswm o garbon diocsid sy'n ddiogel yn yr atmosffer. Yn y digwyddiad, a gynlluniwyd gyda chymorth criw dyfodol, daeth bron i gant o bobl ifanc at ei gilydd i ffurfio'r ffigyrau 350 ar Sgwâr Sukhbaatar yng nghanol y ddinas.

Mae'r grŵp yn fodolon eu bod wedi helpu Greenbell i weithredu ar faterion amgylcheddol ym Mongolia. Maen nhw hefyd yn teimlo bod angen gwneud mwy, wedi iddyn nhw weld effeithiau newid hinsawdd drosynt eu hunain. Dywed Twm, 'Rwy'n teimlo ei bod yn hollbwysig i bobl ifanc ar draws y byd gael bod yn rhan o'r broses o delio gyda newid hinsawdd. Mae'n bwysig bod pobl ifanc yn tynnu at ei gilydd.'

Wedi iddyn nhw ddychwelyd i Gymru, bydd y bobl ifanc yn cynnal gweithdai a chyflwyniadau ledled Cymru am eu profiadau. Mae'r grŵp yn ddiolchgar i GwirVol am ariannu'r daith, ac i bawb a gododd arian at y brosiect. Dywed Sannan, 'Roedd yn wych cael cyfle bod yn rhan o'r brosiect ac mae wedi bod yn brofiad anhygoel.' Dywed Melody, 'Mae hi wedi bod yn anhygoel cael y cyfle yma. Rwy'n teimlo fy mod i wedi dysgu llawer.'



GERAINT OWEN CARPEDI

CARPEDI • VINYL • TEILS

CANOEDD O BATRYMAU I DDEWIS

A RHAI MEWN STOCK

Cil y Mynydd Waunfawr Gwynedd

A Uned 5 Gwyrfaï Mill Bontnewydd

(01286)650552 Mob. 07712779475

L.G. OWEN

PENISARWAUN

GWAITH ADEILADU CYFFREDINOL

Gwaith Cerrig- walio a gwynebu
Gwaith Tir-dreiniol

Decio a Ffensio - Patios
Llwybrau- Concretio - Dreifs

Bloc Paving a Tharmacio

Gwaith o safon, gyda prisiau rhesymol (Yn gwbwl yswiriedig)

CYSYLLTWCH

NEU

07896739544

07787532369

CADAIR DINORWIG 1938

Prin fu'r ymateb i'r golofn y mis diwethaf, ond diolch i John Alan Roberts (Llanberis gynt) a Fred Williams, Bethel, am anfon gwybodaeth. Fe gychwynnwn gyda'r llun o Gadair Eisteddfod Dinorwig ym 1938.

Y gŵr wrth ochr y gadair yw ei chynllunydd a'i gwneuthurwr, sef Richard Griffith, y soniais amdano y tro diwethaf yn llunio cadair Eisteddfod



Talaith Powys yng Nghorwen yn 1951. Mae cadair Dinorwig fymryn yn symlach ei chynllun a'i haddurniadau nac un Corwen. Efallai mai cychwyn ar y grefft o lunio cadeiriau eisteddfodol roedd Richard Griffith yn 1938.

Clywodd John Alan yr hanes am gynllunydd y gadair gan ei fam a'i nain. Cafodd Richard Griffith ddamwain yn Chwael Dinorwig rywdro yn ystod y 1930'au. Cludwyd ef adref o'r chwael gan ei gyd-weithwyr, ond arhosodd y fintai unai yn Nhan y Giarat neu yn y Groeslon Uchaf (ble roedd teuluoedd John Alan yn byw ar y pryd) er mwyn cael diod o ddŵr. Roeddent ar y ffordd i gartref Richard Griffith, sef Pencraig, rhwng Capel Sardis a'r Gorlan Uchaf.

Canlyniad y ddamwain oedd i Richard Griffith golli ei goes a gorfod arall-gyfeirio o ran gwaith. Daeth yn saer coed llwyddiannus dros ben, ac ymgartrefu yn Y Foelas, Llanrug. Yno, mae'n debyg y ffurfiwyd y cadeiriau eisteddfodol.

Does gen i ddim gwybodaeth am Eisteddfod Dinorwig, na phwy enillodd y gadair sydd yn y llun. Oes rhywun yn gwybod? A ble mae'r gadair honno erbyn heddiw?

Roedd hogiau Llanrug yn ymwelwyr gweddol gyson â gweithdy Richard Griffith yn Y Foelas hefyd. Yno yr aem yn llafnau i chwilio am sachaid o lwch lli er mwyn 'marcio' y cae pêl-droed yng nghanol y pentref. Cae chwael Nant y Glyn yw'r safle heddiw, ond fel y 'Cae Plwyf' yr oeddem ni yn ei adnabod. Fe'i rhoddwyd yn rhodd i'r pentref gan berchennog Bryn Bras yn gyfnewid am y fawnog ym Mwlch Gwnnog a foddwyd i roi cyflenwad dŵr i'r castell.

Doedd fawr o bridd ar wyneb y cae plwyf, ond bu'r hen Gyngor Plwyf yn trefnu i gael ei lefelu ac i ychwanegu pridd ato er mwyn ei wneud yn addas i ni'r plant chwarae arno. Yno, rywdro yn ystod y 1950'au y gwnaethom ni hogia Llanrug gais i Glerc y Cyngor am arian i brynu coed i wneud gôls, a'u gosod ein hunain ar y naill ben i'r cae. Yna, cyrchu am y Foelas i nôl llwch lli er mwyn marcio terfynau'r cae a gweddill y llinellau.

Un o'r 'hogia mawr' oedd yn ein helpu oedd Ifor Pritchard, mab y prifathro lleol, ac un a fu'n amlwg ym myd chwaraeon rhwng postiau'r gôl i dim Porthmadog a thim amatur Cymru. Chwith meddwl ei fod bellach wedi ein gadael, ond mae arddangosfa o'i waith arlunio i'w gweld yn yr Amgueddfa Lechi yn Llanberis ar hyn o bryd.

CHWILOTA



Clochydd Llanddeiniolen

Yr oedd John Edward Williams, neu Ioan Wyn, yn daid i Fred Williams, Bethel, a ganddo ef y derbynias doreth o stff yn ymwneud â'r clochydd. Bu Ioan Wyn yn glochydd eglwys Llanddeiniolen am hanner can mlynedd, gan wasanaethu pedwar o reithoriaid.

Yn ogystal â chanu'r gloch ac agor beddi, byddai hefyd yn gofalu am Ysgol Eglwys Llanddeiniolen ac yn torri gwair yr holl fynwent.

Yr oedd ganddo ddiddordeb mawr yn hanes yr eglwys ac yn hanes plwyf Llanddeiniolen a Llanfair is gaer. Cyhoeddodd hanes yr Eglwys yn Llanddeiniolen tua 1941 yng nghylchgrawn eglwysig Yr Haul. Credaf fod peth o'r hanes hwnnw wedi ei gynnwys yn yr Eco flynyddoedd yn ôl bellach.

Diddorol hefyd oedd cael yr hanes gan Fred Williams am y gwaith o gynnal hen ywen Llanddeiniolen. Roedd hyn yn gynnar yn ystod blynyddoedd cyntaf yr Ail Ryfel Byd. Roedd cangen enfawr o'r hen ywen mewn perygl o ddisgyn, a bu'n rhaid i'r clochydd, gyda help ei fab (sef tad Fred Williams) fynd ati i roi cadwyn haearn gref o amgylch y gangen i'w chynnal rhag disgyn ar y beddi cyfagos. Mae'r gadwyn honno yn dal i gynnal y gangen hyd heddiw.

Cais am lun Ty'n y Buarth, Llanrug

Mae (neu yr oedd) y Ty'n y Buarth gwreiddiol yng nghefn hen Ysgol Glanmoelyn. Bu'n lard Lo am flynyddoedd, ac erbyn hyn mae tŷ newydd wedi ei godi ar y safle. Byddai'r perchennog yn falch o gael gweld llun o'r tŷ gwreiddiol. Mae llun yn bod, oherwydd fe'i gwelodd flynyddoedd yn ôl gan berson o Lanrug a fagwyd yno – ond mae'r llun bellach wedi mynd ar ddifancoll.

Cais felly ar i unrhyw un sydd â llun o'r hen Dy'n y Buarth i gysylltu. Cysylltwch hefyd ynglŷn ag unrhyw agwedd o hanes bro Eco'r Wyddfa. Anfonwch i Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. Ffôn: 01286 673515.

Cof-Lyfr Eglwys Llanberis

Diolch unwaith eto i W. Arvon Roberts, Pwllheli am anfon toreth o doriadau hen bapurau newydd i mi; llawer ohonynt yn ymwneud â'r ardal hon. Mae cryn waith didoli arnynt!

Dyma damaid i aros pryd. Mae'n dyddio o 1828, ac anfonwyd y llythyr i'r Gwylidydd gan rywun yn galw ei hun yn 'Ymofynnydd'.

Holi mae'r llythyrwr am gof-lyfr Eglwys Llanberis. Mae'n anodd gwybod ai cyfeirio at gofrestr y plwyf a wna ynteu at rhyw lyfr cofnodion arall. Honni mae'r llythyrwr fod y Parch Evan Owen, Rheithor Llanberis tua deugain mlynedd yn gynharach, wedi mynd â'r llyfr i'w gartref ym Mhant Philip, Dolgellau, ar ôl ymddeol o'i swydd. Mae'r llythyrwr yn tybio fod y cof-lyfr ym meddiant rhyw etifedd i Evan Owen, ac nad yw hwnnw yn llawn sylweddoli ei werth.

Mae'r llythyr yn diweddu drwy gynnig gwobr i bwy bynnag a ddél â'r llyfr i law y rheithor presennol. A'r rheithor presennol hwnnw oedd y Parch Peter Bailey Williams, oedd yn Rheithor plwyf Llanrug a Llanberis.

Tybed pwy ysgrifennodd y llythyr? A thybed a ddaeth y cof-lyfr yn ôl i'w fam eglwys?



Ysgol Canol Llanrug yn y 1950'au

Cael fy stopio ar y stryd yng Nghaernarfon: roedd y lluniau o blant ac athrawon Ysgol Canol Llanrug yn rhy fychan yn y rhifyn diwethaf! Roedd angen chwydd-wydr i'w hastudio! Ond roedd enwau ar gael. Felly, dyma blygu i gais y siopwraig a chynnwys y lluniau unwaith eto'r mis hwn – yn fwy o ran maint. Felly, does dim esgus peidio anfon yr holl enwau i mewn erbyn y mis nesaf!



ANTUR WAUNFAWR CWRS AR BLETHU HELYG

Dewch i ddysgu sut mae gwneud ffens, twnnel neu gromen helyg ar gwrs undydd ar 17 neu 18 Tachwedd, rhwng 10-4 o'r gloch. £35 ar gyfer y diwrnod, yn cynnwys cawl a rôl i ginio.

Maen nhw'n addurniadol iawn, gan ychwanegu rhywfaint o hwyl i'r ardd. Mae plant wrth eu bodd gyda nhw - dyma beth oedd gan un o athrawon Ysgol Waunfawr i'w ddweud: "Caiff y gromen ei defnyddio bob amser chwarae gan blant o bob oed - mae'n dardis, yn roced, yn iglw, yn wâl, ac yn lle perffaith i ddweud stori."

Rhaid trefnu lle ymlaen llaw - cysylltwch ag Anna Williams (trwy e-bostio - www.anturwaunfawr.org neu ffonio 0772280970) neu ffoniwch Antur Waunfawr ar 01286 650721.

Twrnament Rygbi. Dymunwn yn dda i'r tim rygbi a fydd yn cystadlu yn Nhwrnament Clive James ar y Morfa yng Nghaernarfon ddydd Mercher Hydref y 19eg. Pob lwc hogia!

Diwrnod Dathlu ymdrechion Cymru yng Nghwpan Rygbi'r Byd. Byddwn yn edrych ar y gêm ddydd Gwener Hydref yr 21ain ac mae croeso i'r plant wisgo crys rygbi Cymru ar y diwrnod. Mae'r Cyngor Ysgol hefyd wedi penderfynu bod pawb yn cael chwarae gemau bwrdd yn ystod y pŵn. Hwyl gyda'r chwarae!!

PRES AM RES. Fel rhan o ymgyrch codi arian ar gyfer Eisteddfod yr Urdd 2012 rydym yn gobeithio sefydlu record byd am gasglu pum ceiniogau a'u gosod mewn rhes o un ochr o bentref Waunfawr i'r llall. Byddwn yn ceisio sefydlu'r record yn ystod gwyliau'r Pasg 2012. mae gwerth £5 o bum ceiniogau wedi eu gosod mewn rhes yn ychydig dros 1 medr o hyd, felly mae angen tipyn o gefnogaeth gan bobl y pentref!

Rydym yn gofyn i bawb sydd wrthi'n casglu fynd â'u pum ceiniogau i'r Trysorydd, John Gwynedd, i'r ysgol neu i siop bentref Waunfawr er mwyn i ni gael syniad faint sydd wedi eu casglu hyd yma. Os nad oes genych chi bum ceiniogau wedi eu casglu gallwch cefnogi'r yr un fath trwy gyfrannu ac fe allwn ni newid yr arian yn y banc.

Cefnogwch ein hymgyrch er mwyn rhoi pentref Waunfawr ar y map yn y Guinness Book of World Records!

MERCHED Y WAWR

Cynhaliwyd noson gyntaf tymor Merched y Wawr nos Iau, 22 Medi, yng Nghaffi'r Antur. Cafwyd noson hwyliog yng nghlydwch y caffi yn chwarae gemau bwrdd, allawer o'r aelodau'n cael mwynhad annisgwyl yn ailddarganfod gemau eu plentyndod! Cynhelir ein cyfarfod nesaf yn

y Ganolfan nos Iau, Tachwedd 3, pryd y bydd Mr Cynan Jones o Nanmor, Beddgelert, yn siarad am ei fusnes hel a thyfu madarch. Byddwn yn mwynhau ein cinio Nadolig yn Nhafarn y Weun ar 1 Rhagfyr. Estynnwn groeso cynnes i aelodau hen a newydd i'r ddau gyfarfod.

Brysiwch wella! Dymunwn wellhad buan i Anti Hywela ein cogyddes, sydd wedi bod yn dioddef gyda chefn drwg dros y mis diwethaf.

Bydd yr ysgol yn cau ddydd Gwener, Hydref yr 21ain ac yn ail agor ddydd Llun, Hydref y 31ain.

Mwynhewch y gwyliau.

Dyddiadau i'w cadw mewn cof. Bydd yr ysgol yn cefnogi ymgyrch Operation Christmas Child eleni. Os oes unrhyw un â diddordeb bydd angen cael y bocsys yn barod erbyn Tachwedd 23ain. Diolch.

PRIODAS. Anfonwn ein dymuniadau da a'n llongyfarchiadau i Gina Gwyrfaï, Garmon, Stad Tŷ Hen ar ei phriodas â Geraint Jones o Drefor.

GENEDIGATEH. Llongyfarchiadau i Karen a Mark Clark, Stad Bro Waun, ar enedigaeth mab bach, Lewis, brawd i Emma a Ben ac ŵyr i Mr Dafydd Parry, Stad Bro Waun.

Llongyfarchiadau i deulu Fron Hyfryd ar enedigaeth merch fach, Arianrhod, chwaer i Alun, Dafydd a Harri.

LLONGYFARCHIADAU i Dewi Jones, Bryn Tawel, ar ddod yn daid i Owen, mab bach a anwyd i'w ferch, Elen a Mathew, brawd i Llion a gor ŵyr i Mrs M. Jones, Glasfryn.

ADREF O'R YSBYTY. Croesawn Caleb, mab bach Manon, 7 Ael y Bryn; Anwen Rhys, Stad Llys y Waun; Cerys Roberts, Nant Mynydd a Mrs Grace Dawson, Stad Tref Eilian wedi iddi dderbyn llawdriniaeth, adref o'r ysbyty ac hefyd Mrs Cadi Jones, Nant, wedi iddi dderbyn triniaeth i'w llygaid mewn ysbyty yn Lerpwl. Gobeithio y byddwch i gyd yn gwella yn fuan.

GWASANAETHAU'R SUL

Tachwedd

6: Parch Dafydd Ll. Hughes
13: Y Gweinidog
20: Parch Ddr Elwyn Richards
27: Y Gweinidog
Rhagfyr

4: -
11: Y Gweinidog
18: -

Trwsio ac Adnewyddu Dodrefn

Wedi torri darn o ddodrefn?
Hoff gelfi wedi mynd i edrych yn drist?
Cysylltwch â ni i roi bymyd newydd i'ch trysor

Dennis & Julie Jones

01286 650255

E. W. Pritchard CENTRAL GARAGE, Llanberis

Ffôn: (01286) 870202

TREFNWYR ANGLADDAU

CYNGOR CYMUNED LLANRUG

Mewn cyfarfod a gynhaliwyd ar 27ain o Fedi 2011:

Trafodwyd datblygiad tai ar dir yr Eglwys rhwng Ffordd yr Orsaf ag Ysgol Gynradd Llanrug gyda'r Cynghorydd Charles Jones ac Elfed Williams, Ymgynghorydd Cynllunio oedd yn cynrychioli Esgobaeth Bangor. Byddai'r cynllun hefyd yn creu ffordd a chylchfan newydd a allai leddfu tipyn ar broblemau traffig a diffyg parcio ar Ffordd yr Orsaf a sgwâr Llanrug. Disgwylir cais cynllunio yn fuan. Yr Esgobaeth yw perchennog y tir. Penderfynwyd:

Archebu bylbiau Cennin Pedr o Ganolfan Arddio Fron Goch a fydd yn cael eu plannu o gwmpas yr ardal gan Fenter Fachwen.

Gofyn i Gwmni GL Jones wneud y gwaith yn y caeau chwarae a gafodd eu nodi gan eu harchwiliad diweddar.

Cefnogi cais perchennog tir llwybr heibio Stad Glanffynnon i ail sefydlu dwy giât a dynnwyd o'r blaen cyn belled ag y byddai cadeiriau

olwyn a phramiau yn gallu eu defnyddio.

Gofyn i Mr Dafydd Owen dorri llwybrau Gelliad a Bryn Ffridd.

Archebu 6 teclyn codi ysbwriel ar gyfer tacluso'r pentref.

Gofyn i Gyngor Gwynedd dorri'r gwrych rhwng Tir Na Nog (Nant y Glyn) a'r adwy i Ffordd Llanberis.

Doedd dim gwrthwynebiad i'r ceisiadau cynllunio canlynol:

Dymchwel tŷ annedd un llawr a chodi tŷ annedd deulawr newydd - Afonwy Cottage, Pontrug;

Adeiladu modurdy ar gyfer defnydd sy'n is-raddol i'r tŷ - Lakeside Cottage, Cwm y Glo; Estyniadau gwydr un llawr i flaen a chefn tŷ annedd - Tyn y Coed, Llanrug

Ymestyn parc gwyliau drwy osod 13 carafan deithiol a gwaith cysylltiedig yn cynnwys tirweddu a gwaith peirianyddol - Seiont Riverside Camping, Pontrug: (ond mynegwyd pryder am y ffordd droellog sydd yn arwain tuag at y safle.) Cais diwygiedig i greu estyniad llawr cyntaf ar fodurdy - Twll Clawdd, Llanrug;

Estyniad deulawr yn y cefn - 5 Glyndwr Terrace, Cwm y Glo; Adeiladu lolfha haul ar gyfer tŷ annedd - 8 Corlan y Rhos, Llanrug;

Ethol y Cynghorydd Nan Humphreys i cynrychioli'r Cyngor fel llywodraethwr i Ysgol Gynradd Llanrug.

**Cefnogwch
ein
hysbysebwy**

**Blodau
Racca**

(ALWYN A SARAH JONES)

Ffôn: 870605

- Basgedi Planhigion
- Planhigion Gardd
- Basgedi Crog
- Hefyd, Compost ar werth

RHODD O'R GALON
YW BLODAU

Siop Waunfawr

(Howard a Debbie)

**Pay Point, Papur Newydd, Cardiau
Cymraeg, Cylchgronau, Bwydydd,
Nwyddau Tŷ**

Ffôn: (01286) 650834

Diolch am gefnogi'r fenter newydd

ar agor 7:30 - 6:00

8:00 - 5:30 (Sadwrn)

8:30 - 12:30 (Sul)

e-bost: siopwaunfawr@live.com

Rol Williams eisiau atgyfodi'r gân 'Hiraeth y Cymro'

Y dydd o'r blaen wrth glirio a didoli llu o drugareddau yn y tŷ 'cw dois ar draws ychydig o lyfrau roeddwn wedi eu rhoi heibio ers tro bellach. Yn eu mysgr yr oedd cyfrol fer hunangofiannol y diweddar Meirion Parry, cyn-brifathro Ysgol Eifion Wyn, Porthmadog. Y gyfrol wedi ei seilio ar ddarlith a draddododd Meirion nos Iau, 14 Hydref 1993, yn ysgol Bro Lleu, Penygroes. Wrth sôn am ei brofiadau yn y Fyddin yn ystod y Rhyfel, mae yn sôn am y Gymdeithas Gymraeg a sefydlwyd yn Rangoon, yn Burma, gyda'r diweddar Owen Rees Parry, Bethel (Now Rees i ni, ei gydnabod erstalwm) yn Ysgrifennydd. Cyfeiria Meirion Parry at ddatlu Gŵyl Dewi Sant yn Rangoon yn 1946 a'r Cymry wedi ymgasglu i 'ganu'n fendigedig yr hen ffefrynnau i gyd'.

Ymysgr y ffefrynnau, medd Meirion, roedd 'Hiraeth y Cymro'. Daeth y cyfeiriad at y gân yma ac atgofion lu i mi a gofynna i mi fy hun am y canfed tro, mae'n siŵr, pam, o pam mae'r gân hon a fu mor hynod boblogaidd erstalwm yn y fro a adnabyddir heddiw fel talgylch Eco'r Wyddfa, wedi mynd yn angof llwyr? Ysgrifennwyd yr alaw gan Robert Lloyd Roberts (Ffrwd Alaw) Brynrefail - gŵr a ymdrechodd bob nos Wener erstalwm i wneud Rachmaninov ohonof gyda gwers chwarae'r piano o hanner awr, a oedd i mi yn artaith llwyr (nid bai Robert Lloyd mo hynny) a chyfansoddwyd y geiriau gan Nellie Holland o Lanberis.

Byddai'r gân yma yn cael ei chanu gydag arddeliad ar y bws Crosville dybl-decar ddeg o'r gloch o Gaernarfon i Lanberis yn y 50'au a'r 60'au bob nos Sadwrn. Yn ddi-feth, rhywle rhwng Rhosbodrual a Phontrug, byddai rhywun yn datgan mai 'Trigo'r wyf mewn gwlad estronol' y byddai a dyna hi wedyn yn cael ei dyblu a'i dyblu nes i'r bws gyrraedd Penllyn. Heb os, yr oedd 'Hiraeth y Cymro' yn hynod, hynod boblogaidd yn ystod y cyfnod hwnnw ond yn sydyn reit diflannodd i ryw ebargofiant, a bellach does ond ychydig ohonom yn cofio dyddiau ei phoblogrwydd. Gyda llaw, dim ond y pennill cyntaf oedd yn gybyddus i gôr y bws deg!

Rhaid i mi ofyn pam nad oes yr un o gorau y fro bellach yn cynnwys y gân yn eu repertoire?

Os oedd hi'n dderbyniol i'r milwyr o Gymry ei chanu ym mhoethder Pagoda Road, Rangoon, gynt, ac yn ogystal i gôr pererinion y dybl-dec bob nos Sadwrn ei morio, yna rwy'n siŵr y byddai ei chordiau a'i geiriau hiraethus yn apelio at y cerddorion modern yn ogystal.

I mi mae yn haeddu cael ei hailgyfodi, ac yn enwedig felly ym mro yr Eco!

Beth amdani gorau'r fro?

Dyma'r geiriau a gyfansoddwyd gan Nellie Holland.

*Trigo'r wyf mewn gwlad
estronol*

*Ac yng nghanol coedwig werdd,
Clywaf beunydd sain y wennol
Gyda'i chôr mewn swynol
gerdd;*

*Er mor beraidd yw ei miwsig,
Er mor dyner yw ei gân,
Codai hiraeth yn fy nghalon
Am fy annwyl Gymru lân.*

*Er i flwyddi maith ddiflannu,
Er cael llawer tro ar fyd,
Er i'm ganwaith fynd dan ganu
Pam arhosais yma c'yd;
Rwy'n ymdrechu cuddio'r
deigrin*

*A fy nwylo dan fy mhen,
Hed fy meddwl i'r hen fwithyn
Ar y bryn yng Nghymru Wen.*

*Nid oes mwyach gysgod
derwen,*

*Nid oes nythod yn y llwyn.
P'le mae'r côr o frig y fedwen
P'le mae'r wennol - dyna'm
cwyn;*

*Credaf iddynt oll ehedeg
Draw i Gymru dros y don,
Mwy nis gallaf aros yma
Yn y goedwig unig hon.*

*Mi ganlynaf yr aderyn
I fy annwyl Walia Wen,
Adre'n ôl i wlad y delyn,
Dyma'r orau dan y nen.
Canaf eto hen alawon
Bendigedig gwlad y gân,
Dyma fangre fy nghyfeillion,
Dyma'm nefoedd, Gymru lân.*

CYNHELIR Ffair Grefftau yn Ysgol Gynradd Llanrug am 6.30 yh ar 10 Tachwedd. Cyfle gwyh i gychwyn eich siopa Dolig heb y plant. Tocynnau ar gael o'r ysgol neu drwy gysylltu â Jacqueline ar 07788897044.

PENBLWYDD HAPUS. Dymuniadau gorau i Mrs Megan Pritchard, 3 Hafan Elan, ar ddathlu ei phenblwydd yn 98 mlwydd oed. Llongyfarchiadau mawr i chi.



Gwasanaeth diolchgarwch yng nghapel Y Rhos

MERCHED Y WAWR

Nos Fawrth, 11 Hydref, croesawyd nifer dda o aelodau ynghyd â ffrindiau a'ngwestai, Mair a Gwyndaf, gan ein Trysorydd, Meirwen Lloyd. Cychwynnwyd gyda Chên y Mudiad a throsglwyddwyd yr awenau i ddwylo Mair a Gwyndaf gyda'u sleidiau am eu taith 'O Eryri i Batagonia' - taith fythgofiadwy dros wyliau'r Pasg eleni. Mwynhawyd orig ddifyr iawn yn gwrando ar y ddau yn olrhain y daith yn hynod ddiddorol a doniol.

Derbyniwyd llythyr gan PAWB - Pobl Atal Wylfa B, 'Cymru Werdd Ddiniwclear yn cynnwys gwybodaeth am y gynhadledd yn Galeri Caernarfon ar 22 Hydref. Anogir ni i wrando ar y dadleuon yn erbyn ynni niwclear ac o blaid dyfodol cynaliadwy i Gymru trwy raglenni cynhwysfawr o arbed ynni a datblygu ynni adnewyddol yn ei holl amrywiaeth.'

Byddwn yn dathlu'r Nadolig eleni yn 'Yr Hen Lechan' Y Felinheli, a bydd angen talu £15 i'r Trysorydd yn y cyfarfod nesaf, os gwelwch yn dda.

Diolchwyd i Ann, Megan a Nan am baratoi'r baned, gan atgoffa Pat, Julie a Helen mai eu cyfle nhw fydd gwneud y baned mis Tachwedd. Enillydd teilwng iawn o'r raffl oedd Mair.

Noson yng nghwmni'r ffotograffydd Geraint Thomas, Panorama, fydd yr arlwy mis nesaf.

Diolchodd Meirwen i Mair a Gwyndaf am noson tu hwnt o ddifyr. Atgoffir pawb y cynhelir Cwis Hwyl Cenedlaethol yng Ngwesty Seiont Manor nos Wener, 18 Tachwedd, am 7.15

Nos Wener, 4 Tachwedd, am 7.30 yn y Galeri cynhelir 'Noson gyda'r Sêr'. Tocynnau £10 ar gael o Galeri. Bydd elw'r noson tuag at Ymchwil Cancr Cymru.

Cynhelir Ysgol Undydd i ddysgwyr rhwng 2.00 a 3.30 - bydd aelodau o ganghennau Merched y Wawr Arfon yn dod i sgwrsio efo'r dysgwyr ar ddydd Sadwrn, 12 Tachwedd, yn Ysgol Maesincla Caernarfon.

Cynhelir Ffair Grefftau/Cynnyrch Nadolig yn Ysgol Gynradd Llanrug ar 10 Tachwedd am 6.30. Mynediad £2.50, y tocynnau ar gael o'r ysgol.

GENEDIGAETH. Llongyfarchiadau mawr i Katie Davies, 6 Hafan Elan a Thomas Jones, Stad Talybont, ar ddod

SEFYDLIAD COFFA. Clwb Cant Mis Medi: 1. Melfyn Jones; 2. Efa Roberts; 3. Mrs E. Roberts, 3 Bryn Moelyn.

PLAID CYMRU. Clwb Cant Mis Hydref: 1. Leslie Larsen; 2. Clifford Williams.



Codwyd £275 at achos da Macmilland yn y bore coffi yn y Sefydliad Coffa. Llongyfarchiadau i bawb ar ymdrech wych!

Darren Jones Contractiwr Teilsio

**CEGINAU
YSTAFELLOEDD
YMOLCHI
A LLORIAU**

9 Rhos Rug
Llanrug Caernarfon

**(01286) 669090
Mobile-07894818783**



Hywel Williams

Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth

Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu

70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR

01248- 372948

williamshy@parliament.uk



J.M. JONES a'i Feibion LLANRUG Gwaith Coffaol

Ffon Gwaith
01286 672898

Cartref
01248 679089

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Gwasanaethau Garddio Gorwel

**01286 650761
07773 020424**

Plannu Llwyni
Planhigion a Llysiau
Tori Gwair a Gwrychoedd
Tocio Palu a Chwynu
Tacluso a Gofal Tymhorol
Cwella Safon Tir
Glanhau Llwybrau, Tywarchu
CWBL YSWIRIEDIG

YSGOL GYMUNED

Pennaeth Newydd. Mae Pennaeth newydd wedi ei benodi ar gyfer yr Ysgol, sef Mr Llŷr Rees. Bydd Mr Rees yn dechrau ar ei ddyletswyddau ddechrau mis Ionawr 2012.

Myfyrwyr. Mae Gwenllian Owen o Brifysgol Bangor yn treulio cyfnod o Ymarfer Dysgu yn yr Ysgol ar hyn o bryd.

Campau'r Ddraig. Cynhelir gweithgareddau bob yn ail nos Lun, rhwng 3.15 a 4.15, gan gychwyn nos Lun, 31 Hydref.

Yr Urdd. Bydd cyfarfodydd gweithgareddau'r Urdd yn cychwyn yn yr Ysgol ar nos Lun, 7 Tachwedd, rhwng 3.15 a 4.15 o'r gloch.

Gwasanaeth Boreol. Croesawyd Mr Andrew Settatre yma bore dydd Gwener, 7 Hydref, i gynnal y gwasanaeth.

Ymweliad ac Archfarchnad Tesco Bangor. Aeth dwy o ddisgyblion Bl.6, sef Catrin Sara ac Amie, gyda Miss Bethan Pritchard i gynrychioli'r Ysgol i'r Archfarchnad bnawn dydd Gwener, 7 Hydref. Derbyniwyd llond bocs o wahanol nwyddau ar gyfer defnydd y plant yn yr Ysgol. Roedd yr ymweliad wedi ei drefnu o dan y cynllun 'Schools and Clubs'.

Ymweliad Addysgol. Fel rhan o'u gwaith thema, 'Myfi fy Hun', bydd dosbarthiadau derbyn 1 a 2 yn ymweld ac Amgueddfa Lloyd George yn Llanystumdwy ar ddydd Llun, 14 Tachwedd.

Tynnu Lluniau. Bydd Mr Gwynant Parri yma bore dydd Mercher, 9 Tachwedd, i dynnu lluniau'r plant. Mae croeso i unrhyw blentyn sydd ddim yn ddisgybl yn yr Ysgol alw draw yn ystod y bore.

Ymgyrch Plentyn y Nadolig. Byddwn yn cymryd rhan yn yr ymgyrch yma eto eleni a gwerthfawrogn eich cefnogaeth. Gofynnwn i chwi anfon y bocsys i'r ysgol erbyn 18/11/11 os gwelwch yn dda.

Cyngerdd Nadolig. Cynhelir y Cyngerdd nos Iau, 8 Rhagfyr, am 6 o'r gloch. Bydd y cor cymunedol, sydd wedi bod yn brysur yn ymarfer yn

wythnosol yn cymryd rhan yn ogystal â phlant dosbarth y babanod.

Ffair Nadolig. Cynhelir y Ffair ar nos Fawrth, 13 Rhagfyr, am 6 o'r gloch.

EISTEDDFOD YR URDD 2012. Apêl Brynrefail a Phenisarwaun. Rydym bellach wedi cyrraedd y nod o £5,000. Dymunir diolch i bawb am y gwaith caled, yr haelioni a'r cydweithrediad. Edrychir ymlaen am Eisteddfod i'w chofio ar dir Glynllifon ym mis Mai 2012.

PLYGU'R ECO. Dymunir diolch i Swyddogion yr Eglwys am gael defnyddio'r Neuadd i blygu'r Eco ar nos Iau, 29 Medi. Diolch eto i'r criw ffyddlon am eu cydweithrediad ac i Marian am helpu hefo'r plygu ynghyd â'r bwndelu.

GAIR O GYSUR. Anfonir ein cydymdeimlad llwyrat at deulu y diweddar Mr Robert Pritchard, 45 Mountain Street, Caernarfon, gŵr annwyl Betty, 13 Bryntirion gynt, tad gofalus Shân a Bethan a thaid balch i'w wyrion a'i wyresau.

O'R CASTELL I'R LLYS Bnawn Sadwrn, 8 Hydref, daeth nifer fawr o aelodau'r teulu a llu o ffrindiau, pell ac agos, i Dros y Waen i gyfarfod cyhoeddi y gyfrol 'O'r Castell i'r Llys', gan Wasg y Bwthyn, Caernarfon.

CRONFA PENSIYNWYR. Pêl Bonws. Enillydd mis Medi oedd Mrs Carol Porter. Llongyfarchiadau!

CINCIO NADOLIG. Eleni byddwn yn mynd i Westy'r Buckley ym Miwmares ar ddydd Sadwrn, 10 Rhagfyr. Bydd y bws yn cychwyn am 11.15 o'r gloch. Yn dilyn y cinio byddwn yn ymweld â Chanolfan Siopa Pringles yn Llanfairpwll ble bydd cyfle i wneud ychydig o siopa Nadolig. Mae croeso i unrhyw un o bensiynwyr y pentref ymuno. Enwau i Mrs Janet Ash, Commercial (Ffôn: 871265) cyn gynted â phosib os gwelwch yn dda.

NOSON BINGO. Diolchir i bawb a gefnogodd y Bingo nos Wener, 21 Hydref. Bydd yr elw yn mynd tuag at gostau Cinio

Nadolig y Pensiynwyr.

PWYLLGOR NEUADD. Tynnwyd Clwb 100 Hydref a'r enillwyr yw: Iago Tomos, Gors, Brynrefail a Shirley Jones, Camelot.

Cynhelir noson Calan Gaeaf nos Lun, 31 Hydref yn y Neuadd Gymuned am 6.00 o'r gloch. Bydd stondinau, raffl, gemau a chystadlaethau di-ri, megis y wisg orau, jac lantern, ysgub, swynion, cerdyn ac addurno teisen Calan Gaeaf. Y beirniad fydd Mair Huws, Llanrug. Yn dilyn bydd Disgo. Pris mynediad fydd: Oedolion - £1. Bydd cŵn poeth ar werth. Felly dewch i gael hwyl a sbri gyda'n gilydd.

Cynhelir Noson Wasael, nos Fercher, 14 Rhagfyr yn y Neuadd Gymuned gyda darlleniadau ac eitemau cerddorol a chyd-ganu'r Hen Garolau gyda rhai o aelodau Band Arian Deiniolen. Bydd pwnsh a mins pei i bawb. Dewch i gyd-ddathlu Gŵyl y Geni.

GWELLHAD. Deallir fod nifer o drigolion y pentref wedi bod yn sâl yn ddiweddar. Dymunir adferiad iechyd buan i chi i gyd. Anfonir ein dymuniadau da at Anti Mary, sef Mary Davies, Llys y Gwynt, wedi'r driniaeth i'w llygaid yn ddiweddar.

Y mae pawb ohonom yn y pentref yn anfon ein dymuniadau gorau i Ann Paterson sy'n derbyn triniaeth yn Ward Cybi - Uned Dwys. Brysia i gryfhau, Ann.

DIOLCH. Dymuna teulu'r ddiweddar Nan Jones, 45 Stryd Fictoria, Caernarfon, ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad tuag atynt o golli un mor annwyl. Bu hyn yn gysur mawr i'r teulu oll.

CYDYMDEIMLO. Ar 7fed Hydref, yn sydyn ond yn dawel yn Ysbyty Gwynedd, bu farw Carol, 40 Ffordd Coed Marian, Caernarfon, gynt o Bryntirion, a hithau ond 52 mlwydd oed. Yr ieuengaf o deulu mawr ac agos y diweddar Mr a Mrs John William Jones, Bryntirion. Y mae ein cydymdeimlad yn ddwfn â Jonathan, ei gŵr, Lyn a Stephen, y plant, ei mam yng nghyfraith, Jennifer, am golli nain falch a chwaer a chwaer yng nghyfraith hoff. Bydd colled enfawr i'w theulu a'i ffrindiau. Bu'r angladd cyhoeddus yn Eglwys Santes Helen ddydd Iau ac fe'i rhoddwyd i orffwys ym mynwent yr Eglwys.

DYMUNA y teulu ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad - y llu cardiau, galwadau ffôn, ymweliadau a rhoddion tuag at Ymchwil Clefyd y Siwgr. Roedd gweld yr Eglwys yn orlawn yn gysur mawr i'r teulu.

EGLWYS SANTES HELEN. Fore Sul, 16 Hydref, am 11.00 y bore gweinyddwyd y Cymun Bendigaidd gan y Parchedig Lloyd Jones. Fore Sul, 23 Hydref, am 11 y bore cynhaliwyd Gwasanaeth o Ddiolchgarwch ynghyd â Chymun Bendigaidd am 5.00 yr hwyr. Diolchir i'r aelodau fu'n brysur yn addurno'r Eglwys ar gyfer yr Ŵyl o Ddiolch.

CERIS JONES

Teglan,
Stâd Talybont

LLANRUG

677362

neu symudol

07979620996

- Trwsio ceir a faniau
- Gwaith MOT
- Mecanic profiadol iawn
- Prisau cystadleuol

WAVELL'S

Bryn ac Angela Williams

London House, LLANRUG

Ffôn:

(01286) 673574

PEN CIGYDDION Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus,
Selsig cartref
Cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist


MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!

HEN LUNIAU, DOGFENNAU A CHREIRIAU

Mae yna gannoedd o luniau a dogfennau fel y rhain ar gael mewn droriau ag atigau'r fro yma. Mae yna griw bach ohonom yn gwneud ymdrech i gasglu'r fath bethau trwy eu sganio neu tynnu eu llun rhag iddynt fynd ar goll am byth.

Fe fydd yna sesiynau yn cael eu trefnu dros y gaeaf yma i wneud hyn ym mhob bentref yn y fro. Fe gewch y manylion yn yr Eco nesaf. Fe fydd y deunydd yn cael ei sganio ar y noson fel y gallwch fynd ar dogfennau adref gyda chi.

Os oes swp mawr ganoch gallwn drefnu i ddod i'ch cartref a gwneud y gwaith yno. Felly, ewch i chwilio!





Blodau Lieneke

Blodau Priodas
Priodferch
Lleoliad • Gyrddau

Cae Rhyddau Pontrug
Caernarfon LL55 2TN

Symudol 07510 511 631

Gwefan: <http://www.blomstervill.no>
E-bost: blomstervill@robin.no



Ar ben arall i'r lein

O'r diwedd mae'r adroddiad ar gyflwr Llyn Padarn a'r fin gweld golau dydd! Rwyf wedi derbyn copi ac, mewn gwirionedd, nid yw'n argoeli'n dda at y dyfodol os na fydd cwmni Dŵr Cymru yn rhoi sylw buan i'r gwaith sydd angen ei wneud i ddechrau troi pethau o'r sefyllfa druenus bresennol.

Mae'r adroddiad, sy'n adlewyrchu archwiliad manwl gan Asiantaeth yr Amgylchedd dros y ddwy flynedd diwethaf, yn pwyntio yn glir iawn at wreiddyn y broblem, ac fel sydd wedi ei adrodd yma nifer o weithiau, yr achos yw carthffosiaeth a'r ffosffadau sydd yn gymysg ag o.

Mae tair ffynhonnell sy'n achosi pryder mawr, y gyntaf wrth gwrw yw gwaith carthffos Llanberis a'r gwahanol arllwysiau argyfwng amrwd sy'n gysylltiedig. Mae rhai i'w gweld yn gollwng carthffos heb ei drin i'r Llyn ar adegau o dywydd garw. Hefyd mae gwaith carthffos Nant Peris yn achosi pryder mawr, oherwydd cyflwr a chynnwys ei arllwysiau.

Dyma rai o argymhellion Asiantaeth yr Amgylchedd:

1. Gosod trwydded warchodol ar holl arllwysion tywydd garw i'r llyn.
2. Gosod sustem otomatig i iselhau arllwys ffosffadau i'r llyn.
3. Lleihau arllwysiau tywydd garw drwy gwtogi ar nifer o arllwysiau i'r sustem.
4. Parhau a'r astudiaeth ffosffadau Nant Peris.

Mae nifer o argymhellion eraill ond nid oes un y dweud, yn ôl be welaf i, ei bod yn orfodol ar Dŵr Cymru i wneud dim, felly y tebygrwydd yw na fydd fawr ddim yn cael ei wneud yn fuan iawn. Y realiti yw y bydd hyn yn rhygnu ymlaen, a'r argymhellion fel pêl denis yn cael eu taflu yn ôl ac ymlaen rhwng yr Asiantaeth a Dŵr Cymru nes y bydd yr algai gwyrdd-las yma yn dangos ei ben unwaith eto. Ond, y pechod mawr yw, os y gwnaiff hyn ddigwydd mi fydd pethau yn rhy hwyr, gyda'r canlyniad y bydd Llyn Padarn ac Afon Seiont yn diflannu fel cartref i'r torgoch, sewin a'r brithyll brown. Bydd holl weithgareddau dŵr y llyn ar ben, oherwydd pwy mewn difri fydd eisiau hwylio neu ganwio mewn pwll o garthffos.

Efallai fy mod yn orfeirniadol o'r sefyllfa, ond mewn gwirionedd dyma yw realiti'r oni bai i Ddŵr Cymru dderbyn a gweithredu ar argymhellion yr Asiantaeth heb oedi. Cawn weld be a ddaw.

Yn sgil problemau ansawdd dŵr, siomedig dros ben yw'r 'sgota wedi bod ar Padarn a'r Seiont eleni. Yn ystod y tymor i 17 Hydref, saith eog a rhyw 50 sewin a ddaeth i'r rhwyd. Mae ymgyrch yn weithredol hyd at 31 Hydref i geisio denu eogiaid i'r ddeorfa er mwyn casglu eu grawn i gario 'mlaen a'r cynllun o ryddhau y cywion i Afon Arddu yn ystod Mai a Mehefin 2012. Roedd cynllun rhyddhau eleni yn hynod lwyddiannus gyda 15,000 o eogiaid bach wedi ei rhyddhau yn ystod Mehefin a 6,000 arall yn ystod diwedd Hydref. Mae arolwg yn datgelu fod cywion Mehefin eleni yn prifio yn arbennig yn nyfroedd oer a chilir yr Arddu.

Heblaw problemau Dyffryn Peris mae'r dyfroedd eraill wedi perfformio yn ardderchog, gyda'r brithyll brown wedi bod yn niferus dros ben. Mae ein llynnoedd fel Cwellyn, Nantlle a Chwm Silyn wedi bod yn arbennig. Rhaid peidio anghofio chwaith rhoi hwb i Dywarchen, sy'n tynnu Pysgotwyr o pob rhan o'r wlad i brofi'r wefr o fachu brithyll yr Enfys go drwm. Rhaid diolch yn arbennig i'r criw ffyddlon sy'n rhoi o'u hamser i rhedeg y ddeorfa a chynnal y cychod. Bydd y gwaith yn dechrau ymhen ychydig ddyddiau ar baratoi materion at y Pwyllgor blynyddol. Bydd gwybodaeth mwy pendant yn cael ei roi yno ynglŷn ag atgyweirio'r jeti ar Lyn Nantlle. Cofiwch, os oes ymgymerwr lleol a diddordeb mewn cario'r gwaith yma allan, yna cysylltwch â mi er mwyn trafod telerau.

Bydd y Pwyllgor Blynyddol eleni yn cael ei gynnal yn yr Institiwt Caernarfon am 7.00 nos Iau, 8ed Rhagfyr. Os oes aelod eisiau rhoi unrhyw gynnig at wella ein dyfroedd yna cofiwch rhaid i'r cynnig ddod i law cyn 24 Tachwedd 2011.

Huw Price Hughes


PENCAMPWRIAETHAU MYNYDD A THRA-PHELL Y GYMANWLAD

Llund ceg o bennawd a llond gwlad – na gwledydd – o gystadleuwyr a swyddogion. Tri diwrnod o gystadlu brwd yn Llandudno, Llanberis a Llanddwyn, gyda thair ras anhygoel; pob un yn cael ei ffilmio a'u dangos ar S4C a nifer helaeth o sianeli eraill yn ystod y mis a aeth heibio. Roedd Llanberis unwaith eto ar fap chwaraeon rhyngwladol. Does ond canmol yr holl drefniadau – gan ddim profiadol Ras yr Wyddfa yn cael ei arwain gan Stephen Edwards. Pob clod hefyd i Arwel Lewis o Fethel, Rheolwr Tîm Rhedeg Mynydd Cymru ac un arall a fu'n hynod brysur gyda'r holl drefniadau dros y tridiau.

Cymru yn cael cychwyn da yn Llandudno gan ennill y fedal aur yn y Ras 24 awr. Rhywfaint o siom yn Llanberis na chafwyd medal unigol, ond rhedwyr Cymru yn brwydro'n galed ac yn cipio'r fedal efydd fel tîm. Yna uchafbwynt y tridiau: Cymru yn ennill y tri safle cyntaf a'r fedal tîm yn ras 55km ar

lwybrau coedwig Niwbwrch a thraethau Llanddwyn. Lloegr ar frig tabl y Gymanwlad gyda naw medal aur, ond Cymru yn ail gyda thair medal aur. A rhaid cofio fod cystadleuwyr o nifer helaeth o wledydd y Gymanwlad yn brwydro am y medalau. Y trueni yw fod cyn lleied o sylw wedi ei roi i'r digwyddiad gan y wasg Brydeinig.

Yn sgil y rasys rhyngwladol cynhaliwyd cystadlaethau 'agored' i redwyr eraill hefyd, a daeth llwyddiant lleol ar Foel Eilio i Jenny Heming o Lanberis a ddaeth yn drydedd yn y ras i ferched dros 40 oed, a Dafydd Thomas o Lanrug, ddau safle o'i hôl, yn gyntaf dos 60 oed. Ond Mathew Roberts o Lanberis aeth â hi ar y diwrnod, gan ennill y ras agored o Gae'r Ddôl i'r copa ac yn ôl mewn 54 munud. Dim ond rhyw dri munud yn arafach nac enillydd y ras ryngwladol oedd Mathew, ond fod yr amgylchiadau yn ystod y bore yn llawer gwaeth na'r hyn a wynebair rhedwyr rhyngwladol yn y pnawn.



Enillydd Mathew Roberts

SportpicturesCymru



DECHRAU SIGLEDIG

Yr Eco dorrodd y stori am sefydlu cangen cefnogwyr Elyrch Abertawe – Jacs y Gogledd. Bellach mae'r Elyrch yn yr Uwch Adran. Sut mae'n argoeli? Diolch i Meilyr Emrys o Fethel – un o'r Jacs – am yr erthygl ganlynol.

'Er gwaethaf methiant ein harwyr i ganfod y rhwyd yn gyson yn ddiweddar, mae aelodau Jacs y Gogledd yn cael modd i fyw wrth wyllo sêr yr Uwch Adran. Yn dilyn cyfarfod yn y Bedol, trefnwyd fod ein haelodau yn ymuno â thaith wedi ei threfnu gan glwb pêl-droed merched Bethel draw i Manchester City. Er colli 4-0, gwefr oedd gweld ein chwaraewyr yn cystadlu â'r mawrion fel Aguero a Silva. Ers hynny trefnwyd teithiau i'r Amwythig a Wolves, heb anghofio sawl taith draw i Stadiwm y Liberty.

Un siom i ni, oherwydd rheolau iechyd a diogelwch eithafol, ni chawn chwifio ein baner enwog ar derasau y Liberty. Ond, cawn sylw mewn ffordd arall, gan i Neil Rosser gynnwys cân sy'n sôn am anturiaethau ein criw ar y G.D.D. ddiweddaraf Caneuon Rwff. Os am fwy o fanylion amdanom cysylltwch â'n hysgrifennydd Russell Williams ar Russwms1@aol.com.'

TYMOR TRAWS GWLAD

Daeth ymhell dros 200 o redwyr i Dreborrh i ras gyntaf y tymor. Mae clybiau athletau gogledd Cymru i gyd yn cystadlu, gan gynnwys clybiau hefyd o swyddi Caer ac Amwythig; rhai mor bell â Telford a Northwich.

Yn ras y dynion, daeth Arwel Lewis o Fethel yn ail dros 50 oed a Dafydd Thomas, Llanrug, yn drydydd dros 60 oed. Yn ras y merched roedd Jenny Heming, Llanberis, yn drydedd dros 40 oed a Maggie Oliver, Dinorwig, yn ail dros 60 oed. Erbyn i'r rhifyn hwn eich cyrraedd bydd yr ail ras yn y gyfres wedi ei chynnal ym Mae Colwyn.

POSH PAWS 
TACLUSO CWN
 Busnes Newydd Lleol
PRYNHAWNIAU neu NOSWEITHIAU 4-10
DYDD SUL 8YB-4YP
 Gwasanaeth Caelu a Ddelfon
 Ty'n Llan Uchaf, Llanddeiniolen
 (01248) 671382 - 07565791010
 ebost- julia@poshpaws@btinternet.com

CDH
 Ymgynghorwyr Ariannol
 Annibynnol
 2 Stryd y Plas, Caernarfon
 (01286) 672727
 8 Llys Onnen, Ffordd y Llyn,
 Parc Menaï, Bangor
 (01248) 674460
 Dewch atom am gyngor ynghylch
 yswiriant a materion ariannol

 Awdurdodir a rheolir gan yr
 Awdurdod Gwasanaethau Ariannol

Chwaraeon



Hyder, Balchder, Siom...

A fu'r fath fis yn hanes prif-gampau Cymru? Taniodd y tîm rygbi draw yn Seland Newydd ac er y fath ymdrech, 'boddi yn ymyl y lan'. Rhoesant Gymru ar y map rhyngwladol gydag un hac chwaraeon Seisnig yn mynnu mai Cymru oedd y tîm oedd yn wir adlewyrchu 'ethos y gêm'. Yn sicr ni fu tîm mor ifanc yn y crysau coch, ac yn sicr ni fu un mwy ffit. Roeddynt yn ymddwyn a pherfformio fel tîm proffesiynol. Bydd yn her i'n timau rhanbarthol i efelychu y dull 'cenedlaethol' yma, dull sydd wedi bodoli gan y Teirw Duon ers degawdau. Rhaid i'r Undeb hefyd wneud eu rhan yn cefnogi gwreiddiau y gêm. Rhaid penderfynu yn derfynol beth yw'r strategaeth ynglŷn â rhanbarth y Gogledd. Ni allwn fforddio colli unrhyw George North arall. Y mae'n gyfnod cyffrous i rygbi Cymru ble y denir llu o ieuencid yn sgil perfformiadau'r garfan genedlaethol. Mae hyn yn galw am wella'r rhwydwaith hyfforddi a chael ein prif hyfforddwyr i symud o gwmpas y wlad a datganoli presenoldeb cyrsiau o Gaerdydd i gynefin naturiol ein hieuencid. Un wlad, un genedl.

Nad anghofhwn chwaith am lwyddiant carfan Gary Speed a'r tair fuddugoliaeth yn olynol. Eto, mae ieuencid - diolch i waith anhygoel Brian Flynn - yn cael eu cyfle.

Dacth Dale i wisgo mantell Giggs. Mae patrwm pendant


yn y chwarae, a'r garfan yn gyffyrddus â'r dull o chwarae. Gwelwn y manteision hefyd o chwarae'n gemau cartref ar y meysydd 'llai'. Gobeithio y bydd cae newydd Bangor yn denu gemau rhyngwladol dan 21, er enghraifft. Cadw'r cysylltiad â'r gefnogaeth gynhenid fydd elfen bwysig o gynnal y fflam.

Amser cyffrous yn sicr. Dyma'r adeg i deimlo'n falch o'n Cymreictod. Meddwl fel Cymry, dadansoddi fel Cymry, cefnogi fel Cymry. Rhoi diwedd i'r meddylfryd gan lawer mai 'rubbish' yw'r safonau Cymreig. I lawer roedd y canlyniad yn Anfield yn bwysicach na'r canlyniad yn Auckland. Byddwn yn ôl rŵan at y Sun a'r Mirror a dim sylw i Gymru.

Defnyddio Warburton a Bale fel enghreifftiau hefyd o fechgyn yn eu hysgol gafodd y cyfle i chwarae a meithrin y ddwy gamp. Nid bod yn 'genedlaetholwr penboeth' yw honni mai prif bwrpas pob tîm ieuencid heddiw yw cyflwyno llwyfan a chyfle i bob plentyn rhyw ddiwrnod gynrychioli Cymru. Dyma fu'r agwedd mewn gwledydd 'bychain' eraill fel yr Iseldiroedd erioed. Gwario ar gyfleusterau, nid ar dracwisgoedd crand a thlysau plastig. Mae cyfnod anturus o'n blaenau. Chwaraewn bawb cin rhan fel cynrychiolwyr a chcfnogwyr.

SAM WARBURTON

*Tra'n chwennych copa uchel - i'w yrfa,
i'r garfan daeth mangel.
Gwac iddo gerdyn Gwyddel,
brwnt o hyd yw byd y bêl.*



Sportpictures Cymru

Tymor Beicio yn dirwyn i ben...

Mae tymor y rasys ffordd wedi darford, a'r tymor yn diweddgu gyda threialon amser i fyny gelltydd. Yn ystod y mis diwethaf, Gareth McGuinness o Lanrug fu'n fuddugol yn dringo o Nant Gwynant i ben Bwlch Gorffwysfa.



E.W. Pritchard - noddwyr y clwb



TLWS HAEDDIANNOL

Llongyfarchiadau i Terry Saynor, rheolwr Llanberis ar gipio tlws Rheolwr y Mis Adran 2 Cynghrair yr Alliance. Mae'n haeddiannol iawn, gyda'r tîm o fechgyn lleol yn ymgiprys ar frig y gynghrair. Yn y tymhorau diwethaf bu rhediadau da yn y cwpanau yn amharu ar y gemau cynghrair. Gwasgwyd nifer o gemau cynghrair i gyfnod cyfyng diwedd tymor a disgynnodd y tîm i'r ail adran. Ffarwelwyd â'r 'cwpanau mawr' bellach pan gollwyd draw yn Acrefair yn y Tlws Cenedlaethol. Gellir yn awr ganolbwyntio ar esgyn. Mae ysbryd da yn y tîm a'r goliau yn llifo. Amser cyffrous ar Ffordd Padarn a bachgen lleol a'i galon yn y clwb yn arwain criw lleol ymlaen gobeithio.

Mae'r clwb yn diolch hefyd i gwmni lleol - yn wirioneddol - E.W. Pritchard - am eu noddi hael. Gobeithio na fydd hyn yn 'claddu' gobeithion y clwb am y tymor! Gwell gen i gredu bod 'atgyfodiad' ar y ffordd ar Faes Padarn.